



Department for
Digital, Culture,
Media & Sport

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

Cyhoeddwyd:

6 Gorffennaf 2021

Tabl Cynnwys

Rhagair y Gweinidog

Crynodeb Gweithredol

- 1. Y cefndir**
- 2. Amcanion y Llywodraeth**
- 3. Moderneiddio cylch gwaith a rhwymedigaethau Channel 4**
- 4. Amcanion newid perchnogaeth**
- 5. Rhestr o holl gwestiynau'r ymgynghoriad**
- 6. Y camau nesaf a sut i ymateb**
- 7. Datgelu ymatebion a diogelu data**

Rhagair y Gweinidog

Pan aeth Channel 4, a grëwyd gan y Llywodraeth Geidwadol o dan Margaret Thatcher, ar yr awyr ym 1982, dim ond tair gorsaf deledu ddaearol arall oedd ar gael – dwy ohonynt yn perthyn i'r BBC – a chafwyd dadl fywiog am y ffordd orau i ddefnyddio'r set ddiweddaraf o led band a oedd ar gael. Y prif reswm yr enillodd Channel 4 y gystadleuaeth honno a chael ei sefydlu fel gorsaf fasnachol a oedd mewn perchnogaeth gyhoeddus ac yn cael ei rhedeg yn fasnachol oedd rhoi mwy o ddewis.

Bedwar degawd wedyn, nid yw dewis yn broblem mwyach. Yn gyntaf daeth teledu lloeren masnachol ac yna teledu daearol digidol, gan godi niferoedd y sianeli i'r cannoedd. Yna daeth gwasanaethau fideo-ar-alw fel Netflix, Amazon Prime a Disney+ i'n sgriniau, gan newid popeth. Bellach rydym yn byw mewn byd o setiau teledu clyfar a ffyn ffrydio, dal-i-fyny ac ar-alw.

Mae'n darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, a ariennir yn gyhoeddus ac yn fasnachol, yn dal yn rhan hanfodol o'r ecoleg gymysg hon, gan gyfrannu manteision cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd eithriadol o bwysig. Mae Channel 4 ei hun wedi gwneud gwaith rhagorol wrth gyflawni ei chylch gwaith ac yn fwy diweddar o ran rheoli'r ansicrwydd yn y farchnad dros y blynyddoedd diwethaf. Mae wedi datblygu ei strategaeth ddigidol, ac wedi cefnogi'r sector cynhyrchu annibynnol yn y Deyrnas Unedig, gan gyfrannu at economïau ein gwledydd a'n rhanbarthau, a chreu cynnwys amrywiol sy'n cymryd risg.

Ond mae'n 2021, nid 1982, ac mae'r dirwedd ddarlledu wedi newid y tu hwnt i bob adnabod. Mae mwy o gystadleuaeth yn fyd-eang a newid yn arferion y cynulleidfaoedd yn creu heriau i ddarlledwyr teledu llinellol, gan gynnwys Channel 4. Mae ei dibyniaeth bresennol ar hysbysebion a gweithgareddau noddi sy'n cael eu sbarduno gan ddigwyddiadau yn ei hagor i amrywiadau yn y farchnad a'r gostyngiad mewn gwariant hysbysebu ar deledu llinellol o'i gymharu â digidol. Rydym hefyd yn gweld ton o gydgrynhoi cwmnïau a allai wneud yr heriau i Channel 4 sy'n perthyn i'r cyhoedd yn fwy amlwg.

Rydym ni am sicrhau bod Channel 4 yn ffynnu am bedwar degawd arall. Ac rydym am gynnal, a, lle bo modd, gwella rôl unigryw Channel 4 ym maes darlledu yn y Deyrnas Unedig, er enghraifft ei llwyddiant wrth ddarparu cynnwys sy'n gwasanaethu pob cwr o'r wlad. Rydym am weld Channel 4 sydd â mynediad at gyfalaf, a'r gallu i fuddsoddi'n ddeinamig mewn technoleg a rhaglennu newydd, gan roi'r gallu iddi wasanaethu cynulleidfaoedd yn well mewn sector cyfryngau sy'n esblygu'n gyflym. Hoffem ei gweld yn gallu arallgyfeirio'i hincwm, yn manteisio ar bartneriaethau strategol ac yn cael mynediad i farchnadoedd rhyngwladol. Hoffem i'w chylch gwaith fod yn berthnasol heddiw ac yfory, a hoffem gefnogi ei chyfraniad gwerthfawr at fywyd cymdeithasol a diwylliannol cynulleidfaoedd y Deyrnas Unedig nawr ac yn y dyfodol.

Ein barn ni ar hyn o bryd, sef barn sydd i'w phrofi drwy'r ymgynghoriad hwn, yw mai model perchnogaeth newydd i Channel 4 fyddai'r ffordd orau o sicrhau ei llwyddiant a'i chynaliadwyedd yn y dyfodol fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus a'i chyfraniad parhaus at ddiwydiannau creadigol y Deyrnas Unedig. Mae yna gyfyngiadau sy'n dod yn sgil perchnogaeth gyhoeddus, a gallai perchennog newydd ddod â mynediad a manteision, gan

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

gynnwys mynediad at gyfalaf, partneriaethau strategol a'r marchnadoedd rhyngwladol. Byddai buddsoddiad preifat yn golygu rhagor o gynnwys, a rhagor o swyddi.

Dyma stori lwyddiannus rydyn ni wedi'i gweld ymysg darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mewn perchnogaeth fasnachol yn y blynyddoedd diwethaf. Mae ITV wedi llwyddo i gynyddu ac arallgyfeirio ei incwm drwy greu ITV Studios, sef rhywbeth nad yw Channel 4 yn gallu ei efelychu'n hawdd yn ei model perchnogaeth presennol. Yn yr un modd, mae Channel 5 wedi ffynnu yn sgil ei gwerthu i ViacomCBS, ac mae ei chyfran hi o gynulleidfa'r grŵp wedi tyfu o 5.8% i 6.4% yn y tair blynedd ar ôl ei gwerthu,¹ gan ennill 'Sianel y Flwyddyn' yn 2020 a bod yr unig ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus a gynyddodd ei gyfran bob-awr yn 2019.

Yn y pen draw, rydym am i Channel 4 gadw ei lle wrth galon byd darlledu Prydain. Rydym am ei gweld yn ffynnu ac yn cyfrannu at ein cynlluniau ehangach i hybu'r diwydiannau creadigol; sbarduno twf economaidd, rhyddhau buddsoddiadau, creu swyddi ac adeiladu ar ein cystadleurwydd rhyngwladol.²

Bydd eich ymateb chi'n rhan o'r dystiolaeth i fwydo'r broses o wneud penderfyniadau ar y pwnc hwn, ac yn y pen draw yn bwydo'n hadolygiad strategol ehangach o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. Byddaf yn croesawu ymateb gennych.

Y Gwir Anrh Oliver Dowden CBE AS

Ysgrifennydd Gwladol yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

¹ Dadansoddiad Enders (2017): Channel 5: three years on from Viacom's acquisition

² Llywodraeth y Deyrnas Unedig (2021): Build Back Better: Our Plan for Growth

Crynodeb Gweithredol

Amcanion a rhychwant

Mae'r llywodraeth hon wedi ymrwmo i lwyddiant parhaus ecoleg darlledu cymysg y Deyrnas Unedig. Wrth inni geisio sicrhau bod llwyddiant yn parhau yn erbyn cefndir o newid technolegol a datblygiadau cyflym yn y farchnad, gan gynnwys cyflymder y cydgrynhoi yn y sector, mae angen inni sicrhau bod system ddarlledu'r Deyrnas Unedig yn addas at y dyfodol.

Mae Channel 4 wedi cyflawni ei chylch gwaith, ei nodau a'i hamcanion yn llwyddiannus ers iddi ddechrau darlledu bron 40 mlynedd yn ôl. Mae hefyd wedi rheoli'r ansicrwydd yn y farchnad yn effeithiol dros y blynyddoedd diwethaf wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol. Er hynny, mae'r dirwedd gyfryngau sy'n esblygu yn cynnig heriau o bwys i lwyddiant a chynaliadwyedd Channel 4 yn y dyfodol o dan ei model perchnogaeth a'i chylch gwaith presennol.

Yn y cyd-destun hwnnw, mae'r llywodraeth bellach yn ystyried newidiadau ym model gweithredu Channel 4, gan gynnwys ei pherchnogaeth a'i chylch gwaith a'i rhwymedigaethau, i sicrhau bod ganddi'r cyfle gorau i lwyddo yn y dyfodol. Mae hyn yn ystyried yr heriau i ddyfodol darlledu teledu llinellol, gan sicrhau cynaliadwyedd Channel 4 yn y dyfodol fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus (PSB) a'i rhoi yn y sefyllfa orau i arloesi a thyfu. Mae'r llywodraeth o'r farn y bydd hyn yn caniatáu iddi barhau i gyfrannu'n economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol drwy fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael y tu allan i berchnogaeth gyhoeddus. **Hoff opsiwn y llywodraeth yw hwyluso newid perchnogaeth Channel 4** a fydd, yn ein barn ni, yn rhoi mwy o fynediad iddi at gyfleoedd strategol a chyfleoedd buddsoddi newydd, gan ganiatáu iddi gystadlu'n effeithiol mewn modd mwy hyblyg a sicrhau bod ganddi'r cyfle gorau i gael dyfodol llwyddiannus a chynaliadwy. Rydym yn credu y bydd hyn yn ein helpu i gyflawni'n nodau ar gyfer y diwydiannau creadigol ehangach fel y'u nodir yn ein Cynllun Twf, sef hybu'r sector drwy sbarduno twf economaidd, rhyddhau buddsoddiadau, creu swyddi ac adeiladu ar ein cystadleurwydd rhyngwladol.³

Yn erbyn y cefndir hwn, nodau'r ymgynghoriad hwn felly yw ceisio barn a chasglu gwybodaeth i helpu i lywio proses benderfynu'r llywodraeth ar yr amcanion y gallai'r llywodraeth fod am eu dilyn wrth newid perchnogaeth Channel 4, ac ar foderneiddio cylch gwaith a rhwymedigaethau Channel 4, gan gyfeirio'n benodol at ei gwerth fel gwasanaeth cyhoeddus cymdeithasol a'i heffaith ar yr economi creadigol. **Mae'r llywodraeth yn gofyn am farn yr ymatebwyr a thystiolaeth ategol ynghylch a ydynt yn cytuno bod heriau yn y farchnad darlledu teledu bresennol sy'n creu rhwystrau i Channel 4 gynaliadwy mewn perchnogaeth gyhoeddus; ac a fyddai Channel 4 barhaus, gyda thrwydded a chylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus parhaus, mewn gwell sefyllfa i gyflawni nodau'r llywodraeth ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn gynaliadwy pe bai y tu allan i berchnogaeth gyhoeddus. Mae'r llywodraeth hefyd am glywed gan ymatebwyr yn ehangach am y costau a'r manteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol a allai ddeillio o symud Channel 4 allan o berchnogaeth gyhoeddus.**

³ Llywodraeth y Deyrnas Unedig (2021): Build Back Better: Our Plan for Growth

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

Nid yw rhychwant yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys dim sy'n ymwneud â mecaneg newid posibl ym model gweithredu Channel 4 na sut i roi newid o'r fath ar waith. I fod yn glir, mae Sianel Pedwar Cymru (S4C) yn ddarledwr gwahanol ac felly nid yw o fewn rhychwant yr ymgynghoriad hwn, sy'n ymwneud â dyfodol Corfforaeth Deledu Channel 4 yn unig.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â channel4consultation@dcms.gov.uk

Y cefndir

Dechreuodd Corfforaeth Deledu Channel 4 (Channel 4) ddarledu ym 1982. Mae'n gorfforaeth gyhoeddus hunangyllidol, ac yn perthyn i'r cyhoedd ond yn cael ei rhedeg yn fasnachol. Mae ei model perchnogaeth presennol yn deillio o gael ei gwneud yn gorfforaeth statudol annibynnol gan Ddeddf Darlledu 1990. Mae'r Gorfforaeth yn gweithredu Channel 4, un o lond dwrn o sianeli yn y Deyrnas Unedig sydd wedi'u dynodi'n sianel PSB.

Roedd nifer o sbardunau y tu ôl i'r ffaith bod y llywodraeth ar y pryd wedi creu'r Bedwaredd Sianel ym 1980, gan gynnwys roi mwy o ddewis i ddefnyddwyr, darparu ystod ehangach o opsiynau i'r rhai a oedd yn dymuno hysbysebu ar y teledu, a sbarduno tensiwn cystadleuol â'r darlledwyr mawr ar y pryd (BBC1, BBC2 ac ITV). Wrth gwrs, mae rôl Channel 4 yn nhirwedd deledu'r Deyrnas Unedig wedi esblygu dros y blynyddoedd, gyda'i gwerth parhaus ac arwyddocaol i'r cyhoedd yn deillio o'i chefnogaeth i'r sector cynhyrchu annibynnol yn y Deyrnas Unedig, cynhyrchu cynnwys amrywiol sy'n cymryd risgiau, a'i chyfraniad at nodau ehangach darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Mae'r llywodraeth wedi ymrwmo i lwyddiant a chynaliadwyedd y system PSB, y mae Channel 4 yn rhan annatod ohoni, ac mae'n cydnabod ei bod yn darparu gwerth economaidd, diwylliannol a democrataidd arwyddocaol i wylwyr ledled y Deyrnas Unedig. Ond, mae nifer o gwestiynau wedi'u codi am y sector teledu llinellol sy'n esblygu'n gyflym, gan gynnwys yr heriau a'r gystadleuaeth gynyddol sy'n deillio o hyn, a fydd yn parhau i dyfu'n gryfach yn y dyfodol agos. Bydd heriau o'r fath yn ymwneud â newid yn arferion y defnyddwyr (gyda phob cynulleidfa ac yn enwedig cynulleidfaedd iau yn fwyfwy tebygol o wyllo cynnwys ar lwyfannau nad ydynt yn llinellol, megis gwasanaethau Fideo ar Alw (VoD), gostyngiad yn y niferoedd sy'n gwylio teledu llinellol sydd â goblygiadau i bob PSB, a gallu cwmnïau byd-eang, gan gynnwys Netflix, Amazon a Disney, i ddenu adnoddau ariannol mwy arwyddocaol na'u cystadleuwyr teledu llinellol traddodiadol.

Er bod Channel 4 eisoes yn gweithredu i addasu at gefndir heriol y sector, mae'r llywodraeth o'r farn bod amryw o ffactorau, gan gynnwys statws Channel 4 fel cyhoeddwr-ddarlledwr a'i mynediad cyfyngedig at gyfalaf yn rhinwedd ei pherchnogaeth gyhoeddus, yn cyfyngu ar ei gallu i ymateb mor effeithiol ag y gallai i newidiadau yn neinameg y farchnad, ac sydd felly'n creu mwy o risg i'w chynaliadwyedd hirdymor.

Fel y dywedwyd, **hoff opsiwn y llywodraeth yw hwyluso newid ym mherchnogaeth Channel 4** o gofio y gallai hyn roi gwell gallu iddi i ymateb i'r dirwedd sy'n esblygu'n gyflym drwy'r canlynol, er enghraifft:

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

- mynediad gwell a pharhaus at gyfalaf
- y gallu i fanteisio ar bartneriaethau strategol a chyfleoedd caffael
- y gallu i ehangu i farchnadoedd rhyngwladol
- y gallu i fuddsoddi'n fwy helaeth mewn modd ystwyth i ddiogelu ei model busnes at y dyfodol
- y gallu i arallgyfeirio'i ffynonellau refeniw

Amseru

Rydym yn croesawu sylwadau gan yr holl randdeiliaid a allai fod â buddiant yn hyn o beth.

Bydd yr ymgynghoriad yn cau ar 14 Medi 2021 am 23.45.

Bydd crynodeb o'r ymatebion ac ymateb y llywodraeth i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu cyhoeddi maes o law ac ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

Bydd ymateb y llywodraeth yn ystyried yr holl ymatebion o fewn y rychwant a gyflwynir i'r ymgynghoriad hwn, a chaiff ei seilio ar ystyriaeth ofalus o'r pwyntiau a wneir yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, nid nifer yr ymatebion sy'n dod i law.

1. Y cefndir

Dechreuodd Corfforaeth Deledu Channel 4 ddarlledu ym 1982. Mae'n gorfforaeth gyhoeddus hunangyllidol ac yn perthyn i'r cyhoedd ond yn cael ei rhedeg yn fasnachol. Mae ei model perchnogaeth presennol yn deillio o gael ei gwneud yn gorfforaeth statudol annibynnol gan Ddeddf Darlledu 1990. Mae'r Gorfforaeth yn gweithredu Channel 4, un o lond dwrn o sianeli yn y Deyrnas Unedig sydd wedi'u dynodi'n sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus (PSB). Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i lwyddiant a chynaliadwyedd y system PSB, y mae Channel 4 yn rhan annatod ohoni, ac mae'n cydnabod ei bod yn darparu gwerth economaidd, diwylliannol a democrataidd arwyddocaol i wylwyr ledled y Deyrnas Unedig.

Ers ei chreu, mae Channel 4 wedi ennill ei phlwyf fel darlledwr neilltuol sy'n adnabyddus am gynnig cynnwys amrywiol ac arloesol er budd cymunedau ledled y Deyrnas Unedig, yn unol â'i chylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus. Mae gan Channel 4 gylch gwaith ansoddol estynedig sy'n fwy neilltuol na chylchoedd gwaith y PSBs eraill a ariennir yn fasnachol, sy'n cynnwys gofynion, ymysg eraill, i ddangos arloesedd a chymeriad neilltuol yn ei rhaglenni.

Yn fwy diweddar mae Channel 4 wedi mynegi ei 'phwrpas' fel creu newid drwy adloniant,⁴ sy'n golygu creu newid yn y byd ehangach drwy ei holl weithgareddau, o deledu i ffrydio, ac o gyfryngau cymdeithasol i ffilm. Mae'r rhain yn allweddol pan fydd Channel 4 yn ystyried ei heffaith ar yr economi, y gymdeithas a diwylliant. Mae 'gweledigaeth' Channel 4 yn ymgorffori sut mae'r sefydliad yn creu newid er lles y cyhoedd ym Mhrydain. Mae'n gwneud hyn drwy'r canlynol:

- 'cynrychioli lleisiau tawel' o blith cymunedau amrywiol
- 'herio gyda phwrpas', gan gynnwys dwyn pŵer i gyfrif mewn ffordd ddiduedd a chytbwys
- 'ailddyfeisio adloniant' i sicrhau eu bod yn gweithio gyda'u partneriaid i ddarparu cynnwys gwirioneddol arloesol sy'n cyrraedd cynulleidfaoedd newydd

O dan y gyfraith, y Gorfforaeth sy'n dal trwydded Channel 4, a dim ond y Gorfforaeth all ei dal. Mae trwydded gyfredol Channel 4 yn dod i ben yn 2024. Ofcom sy'n goruchwyllo'r broses ar gyfer gweinyddu trwydded Channel 4. Mae'r broses drwyddedu PSB hon, sy'n seiliedig ar statud, yn mynnu:

- bod rhaid i Channel 4 fod yn rhad ac am ddim
- bod rhaid cynnig Channel 4 i bob rhwydwaith digidol a phob rhwydwaith lloeren
- bod rhaid i'r Gorfforaeth sicrhau ei bod yn cyflawni'r cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus mewn perthynas â Channel 4 a bodloni cwotâu penodol ynglŷn â chynhyrchu a chynnwys

Yn gyfnewid am hyn, mae Channel 4 yn cael:

- gwarant o fynediad i sbectrwm, sy'n caniatáu i sianeli PSB gyrraedd bron 99% o'r boblogaeth drwy Freeview
- manteision rhwymedigaethau 'rhaid cario' ar bob rhwydwaith o dan Ddeddf Cyfathrebu 2003

⁴ Channel 4 (2020): Future4 Strategy

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

- 'amlygrwydd' gwarantedig yn y canllaw rhaglenni electronig ar deledu byw, sy'n golygu bod ei chynnwys yn hawdd i'w ganfod a'i wyllo
- cymhwysedd ar gyfer y gyfundrefn digwyddiadau rhestredig, sy'n diogelu rhai digwyddiadau chwaraeon rhag cael eu dangos ar wasanaethau darlledu teledu-am-dâl yn unig.

Mae Channel 4 yn gweithredu cyfanswm o 12 o sianeli linellol: Channel 4 ei hun (y 'brif sianel'), ynghyd ag 11 sianel 'bortffolio' (E4, Film4, More4, 4Seven a 7 sianel gerddoriaeth). Dim ond y brif sianel sydd wedi'i dynodi'n ffurfiol yn sianel PSB, er bod Deddf Economi Digidol 2010 wedi rhoi rhwymedigaethau ychwanegol i Channel 4 sy'n berthnasol ar draws ei hystod lawn o lwyfannau a gwasanaethau. Mae ganddi hefyd lwyfan ar-alw, All 4, ac mae'n gweithredu cwmni cynhyrchu ffilmiau, Film4 Productions.

Er hynny, mae nifer cynyddol o heriau'n wynebu'r sector teledu llinellol. Mae'r rhain yn ymwneud â datblygiadau technoleg a newid yn arferion y defnyddwyr (gyda phob cynulleidfa ac yn enwedig cynulleidfaedd iau yn fwyfwy tebygol o wyllo cynnwys ar lwyfannau nad ydynt yn llinellol, megis gwasanaethau Fideo ar Alw (VoD), a hynny ar 'ail sgriniau' anhraddodiadol), gostyngiad yn y niferoedd sy'n gwyllo teledu llinellol sydd â goblygiadau i bob PSB, a gallu cwmnïau byd-eang, gan gynnwys Netflix, Amazon a Disney, i ddenu adnoddau ariannol arwyddocaol i ddenu gwylwyr. Disgwylir i'r heriau hyn ddod yn fwy amlwg dros amser.

1.1 Llwyddiant Channel 4 wrth gyflawni ei chylch gwaith gwreiddiol

Roedd nifer o ffactorau'n berthnasol i'r ffaith bod y llywodraeth ar y pryd wedi creu'r Bedwaredd Sianel, gan gynnwys rhoi mwy o ddewis i ddefnyddwyr, darparu ystod ehangach o opsiynau i'r rhai a oedd yn dymuno hysbysebu ar y teledu, a sbarduno tensiwn cystadleuol â'r prif ddarlledwyr ar y pryd (BBC1, BBC2 ac ITV). Cafodd y sianel ei sefydlu fel is-gwmni a oedd yn perthyn yn llwyr i'r Awdurdod Darlledu Annibynnol, sef rheoleidiwr annibynnol teledu masnachol y Deyrnas Unedig ar y pryd. Dechreuodd Channel 4 ddarlledu ym mis Tachwedd 1982, ac roedd dyfodiad Richard Attenborough fel Cadeirydd ym 1987 yn arwydd o ddechrau cysylltiad hir Channel 4 â diwydiant ffilm y Deyrnas Unedig hefyd.

Dros y blynyddoedd, mae Channel 4 wedi gwneud cyfraniadau arwyddocaol i dirwedd ddiwylliannol y Deyrnas Unedig drwy ei chynyrchiadau teledu a ffilm amrywiol ac arloesol. Mae'r enghreifftiau nodedig yn cynnwys *Big Brother*, a lanswyd yn y flwyddyn 2000 ac sy'n cael ei gydnabod yn eang fel y cysyniad rhyngweithiol traws-cyfryngau cyntaf ag apêl dorfol, a rhestr hir o gomedïau Prydeinig gwreiddiol, yn rhedeg o'r gyfres *Comic Strip Presents* yn yr wythdegau cynnar, hyd at glasuron modern fel *Derry Girls* a *Catastrophe*. Hyd at 2021, roedd ffilmiau Film4 wedi cynhyrchu 143 o enwebiadau Oscar a 37 o fuddugoliaethau. Mae Channel 4 wedi cael ei chydnabod am lansio gyrfaoedd llawer o awduron, cyfarwyddwyr, cyflwynwyr a diddanwyr mwyaf poblogaidd y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Sasha Baron Cohen a Ricky Gervais, a ddaeth i amlygrwydd drwy'r *11 O'Clock Show*.

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

Mae'n amlwg bod ecosystem byd teledu wedi esblygu ac, i raddau, felly hefyd rôl Channel 4 ynddi. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae gwerth parhaus, ac arwyddocaol Channel 4 i'r cyhoedd wedi bod yn driphlyg:

- **Cefnogaeth i'r sector cynhyrchu annibynnol yn y Deyrnas Unedig**, gan ganolbwyntio'n ddiweddar ar y cenhedloedd a'r rhanbarthau yn benodol. Daw'r cymorth hwn yn bennaf o wariant gwreiddiol ar gynnwys, a oedd yn £492 miliwn yn 2019 (sef tua 15% o refeniw'r sector o £3.3 biliwn⁵), y drydedd lefel uchaf yn hanes Channel 4,⁶ a chynnydd o £130 miliwn o'i gymharu â 2010.⁷ Er gwaethaf yr amgylchedd heriol yn 2020, llwyddodd Channel 4 i wario £370 miliwn ar gynnwys gwreiddiol.⁸ Mae hefyd yn cynnwys cyfraniadau o weithgareddau busnes eraill Channel 4, gan gynnwys Film4, yr Indie Growth Fund⁹ a 4Skills.¹⁰ Gwariodd Channel 4 £189 miliwn ar gynhyrchu yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau yn 2019¹¹ a £141 miliwn yn 2020,¹² i fyny o £125 miliwn yn 2010 er gwaethaf effeithiau Covid-19.¹³ Bu'n gweithio gyda 274 o gynhyrchwyr yn 2020 ac roedd 161 ohonynt yn gynhyrchwyr annibynnol. Yn gyffredinol, mae gwerth sector cynhyrchu annibynnol y Deyrnas Unedig wedi tyfu'n gynt ac yn gynt o amcangyfrif o £850 miliwn yn 2003 i fwy na £3 biliwn heddiw, wedi'i ysgogi'n benodol gan y ffyniant mewn refeniw rhyngwladol gyda thwf o 158% rhwng 2014 a 2019 o £484 miliwn i £1.25 biliwn.^{14,15} Mae hyn wedi'i sbarduno'n rhannol gan gwmnïau VoD rhyngwladol sydd â mantolenni mawr.
- **Cynhyrchu cynnwys amrywiol sy'n cymryd risgiau, a chodi'r gwastad o ganlyniad i gymryd mwy o risgiau creadigol na darlledwyr eraill a darparu rhaglenni sy'n apelio at chwaeth a diddordebau cymdeithas sy'n ddiwylliannol amrywiol ar draws rhanbarthau a chenhedloedd y Deyrnas Unedig.** Rhan o'r rhesymeg y tu ôl i sefydlu Channel 4 oedd y byddai'n darparu cynnwys a oedd yn wahanol i'r hyn a ddangosid ar y BBC, ac ITV yn arbennig, ar adeg pan nad oedd llawer o ddewis i'r gwylwyr o ran gwyllo'r teledu, yn wahanol i heddiw gyda mwy o ddewis ar gael i gynulleidfaedd nag erioed o'r blaen a phan fu newidiadau arwyddocaol yn y ffordd y mae pobl yn gwyllo'r teledu yn yr oes ddigidol (yn enwedig ymhlith cynulleidfaedd iau). Yn fwy diweddar, mae Channel 4 wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cynnal ei hethos sianel unigryw drwy hybu lleisiau tawel a mynd i'r afael â thiriogaethau heriol. Mae hefyd wedi cynyddu ei hymrwymadau y tu hwnt i Lundain drwy greu tair swyddfa newydd yn Leeds, Glasgow a Bryste a thrwy sicrhau bod 58% o'r oriau rhaglen sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar y brif sianel yn dod o gyflenwyr y tu allan i Lundain yn 2020, i fyny o'r 54% a gyflawnwyd yn 2019. Roedd hyn yn fwy

⁵ O&O/PACT (2020): UK Television Production Survey Financial Census 2020

⁶ Channel 4 (2020): Annual Report 2019

⁷ Channel 4 (2011): Annual Report 2010

⁸ Channel 4 (2021): Annual Report 2020

⁹ Cronfa £20 miliwn sy'n cymryd cyfran leiafrifol mewn cwmnïau cynhyrchu annibynnol i'w helpu i dyfu a datblygu eu busnes.

¹⁰ Menter Channel 4 i ddatblygu a chefnogi talent newydd mewn gyrfaedd ar draws y cyfryngau.

¹¹ Channel 4 (2020): Annual Report 2019

¹² Channel 4 (2021): Annual Report 2020

¹³ Channel 4 (2011): Annual Report 2010

¹⁴ Pwyllgor Dethol y DCMS (2021): The future of public service broadcasting

¹⁵ O&O/PACT (2020): UK Television Production Survey Financial Census 2020

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

na'r 48% a gyflawnwyd gan ITV a'r 21% a gyflawnwyd gan Channel 5 yn 2019.¹⁶ Mae tystiolaeth o arolwg tracio PSBs Ofcom yn dangos bod Channel 4 yn dal i berfformio'n well na sianeli PSB eraill yn gyson wrth fynd i'r afael â materion na fyddai darlledwyr eraill yn eu trafod ac yn perfformio'n arbennig o uchel ar osodiadau yn ymwneud â'i gwreiddioldeb a'i harloesedd.

- **Ei chyfraniad at nodau ehangach darlledu gwasanaeth cyhoeddus.** Disgwylir i Channel 4, ynghyd â'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus dynodedig eraill, gyfrannu at ddibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus fel y'u mynegir yn Neddf Cyfathrebu 2003, sef darparu rhaglenni amrywiol, hygyrch o ansawdd uchel am ddim. Mae gan Channel 4 hefyd gylch gwaith ansoddol estynedig sy'n fwy nodedig na rhai'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill a ariennir yn fasnachol, gan gynnwys gofynion i ddangos arloesedd a chymeriad neilltuol yn ei rhaglenni, ymysg pethau eraill. Daeth Ofcom i'r casgliad o'r blaen fod Channel 4 yn dangos ystod eang o raglenni o ansawdd uchel, gyda chynulleidfaoedd yn gyson yn sgorio Channel 4 yn uwch na gwasanaethau PSB eraill wrth gymryd risgiau creadigol, mynd i'r afael â materion na fyddai darlledwyr eraill yn eu trafod, a galluogi lleisiau amgen i gael eu clywed.¹⁷

1.2 Heriau i ddyfodol Channel 4 o dan berchnogaeth gyhoeddus

Mae'r llywodraeth wedi ymrwmo i lwyddiant a chynaliadwyedd darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys parhau â llyddiant Channel 4, a chadw ei rôl unigryw a hanfodol ym maes darlledu yn y Deyrnas Unedig er mwyn sicrhau y gall cynulleidfaoedd fwynhau ystod eang o raglenni o ansawdd uchel. Ond, mae newidiadau diweddar i gefndir darlledu teledu llinellol yn cwestiynu ai ei model perchnogaeth gyhoeddus presennol (gyda'r cyfyngiadau a'r rhwymedigaethau perthynol) yw'r un cywir i ganiatáu llyddiant parhaus a chynaliadwyedd hirdymor. Yn benodol:

- **Nid yw refeniw Channel 4 wedi'i arallgyfeirio fawr ddim, ac mae'n cael ei sbarduno gan weithgareddau hysbysebu, a oedd yn gyfrifol am fwy na 90% o refeniw Channel 4 yn 2020 (Ffigur 1).** Er bod twf refeniw hysbysebu teledu digidol (sydd wedi cynyddu o £84 miliwn yn 2016 i £161 miliwn yn 2020¹⁸ gyda rhagolwg y bydd yn dal i godi gyda tharged hysbysebu digidol o 30% o leiaf o gyfanswm y refeniw erbyn 2025¹⁹) wedi gwneud iawn am ostyngiadau yn y refeniw o hysbysebion ar deledu llinellol (sydd wedi dirywio ar draws y sector yn ôl cyfradd dwf gyfansawdd flynyddol o 2.5% ers 2015²⁰), mae hyn yn deillio'n bennaf o symud hysbysebion o'r naill lwyfan i'r llall. Yn wahanol i ddarlledwyr eraill, nid yw Channel 4 yn codi refeniw arwyddocaol o gynrychiadau, yn bennaf o ganlyniad i'r gwaharddiad, drwy ei statws cyhoeddwr-ddarlledwr, rhag bod yn rhan o'r gwaith o wneud rhaglenni i'w darlledu fel

¹⁶ Ofcom (2020): PSB Annual Compliance Report 2020

¹⁷ Ofcom (2020): Channel 4 Corporation's performance in delivering its media content duties 2014–2018

¹⁸ Channel 4 (2021): Annual Report 2020


¹⁹ Channel 4 (2020): Future4 Strategy

²⁰ Dadansoddiad Enders (2020): Channel 4 2019, 2020 and beyond

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

rhan o wasanaeth Channel 4 heb ofyn cymeradwyaeth reoleiddio yn gyntaf – a referniw cyfyngedig drwy werthu hawliau eilaidd. Un o gonglfeini allweddol Strategaeth Future4 Channel 4 yw sicrhau 10% o gyfanswm y referniw o referniw heblaw hysbysebion erbyn 2025. Y tu hwnt i hyn, gall ei statws fel cyhoeddwr-ddarledwr gyfyngu ar allu Channel 4 i fynd lawer ymhellach i arallgyfeirio ei ffrydiau referniw dros yr amserlen hon.

Ffigur 1: Refeniw C4C yn ôl y ffynhonnell (£ miliynau)



- **Mae mwy o gystadleuaeth o du Fideo ar Alw (VoD) a Llwyfannau Ffrydio Fideo (VSPs) wedi arwain at newidiadau mewn arferion gwyllo.** Ers sefydlu Channel 4 am y tro cyntaf i roi mwy o ddewis i gynulleidfa oedd, mae nifer y sianeli teledu wedi cynyddu'n arwyddocaol (Ffigur 2). Mae mwy o ddewis ar gael i gynulleidfa oedd nag erioed o'r blaen ac mae'r ffordd y mae pobl yn gwyllo'r teledu yn yr oes ddigidol wedi newid. Mae pobl 16-34 oed yn gynulleidfa allweddol i Channel 4, sef yr unig ddarledwr gwasanaeth cyhoeddus i ddenu llawer mwy o wylwyr ymhlith y grŵp oedran hwn nag ar draws y boblogaeth gyffredinol. Yn 2020, roedd y lefelau gwyllo ymysg pobl 16-34 oed 55% yn uwch ar draws portffolio Channel 4 na'r gyfran gyfatebol o'r gynulleidfa gyfan.²¹ Ond, mae pob cynulleidfa, ac yn enwedig cynulleidfa oedd iau, hefyd yn fwyfwy tebygol o ddefnyddio cynnwys ar lwyfannau an-linellol fel gwasanaethau VoD, sy'n golygu bod angen i Channel 4 addasu'n barhaus i gyd-fynd. Mae gwyllo teledu llinellol wedi gostwng bron 60% ymysg pobl ifanc 16-25 oed ers 2010,²² ac mae pobl 16-34 oed bellach yn treulio bron dwywaith yn fwy o


²¹ Channel 4 (2021): Annual Report 2020

²² Dadansoddiad Enders (2020): TV Set Viewing Trends 2020 lockdown and full year 2019

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

amser gyda gwasanaethau tanysgrifio ar YouTube a VoD (205 munud y dydd) nag y maent yn ei wneud gyda chynnwys darlledu (117 munud y dydd).²³ Serch hynny, mae Channel 4 wedi parhau i berfformio'n llwyddiannus dros y blynnyddoedd diwethaf, gan gynhyrchu £985 miliwn mewn refeniw yn 2019. Hyd yn oed gyda'r heriau a gyflwynwyd gan Covid-19, parhaodd Channel 4 i berfformio'n dda yn 2020 gan gynhyrchu £934 miliwn mewn refeniw, gan gynnwys y swm uchaf erioed o £161 miliwn mewn refeniw hysbysebu digidol, er bod y gwariant ar gynnwys wedi'i dorri o £660 miliwn yn 2019 i £522 miliwn yn 2020.²⁴ Gwelodd gwasanaeth ffrydio digidol Channel 4, sef All4, gynnydd o 26% yn nifer yr ymweliadau yn 2020 ac erbyn hyn mae ganddo 24 miliwn o wylwyr cofrestredig gan gynnwys 80% o bobl 16-34 oed y Deyrnas Unedig.²⁵ Mae'r cynulleidfaoedd teledu llinellol wedi parhau'n gryf, gyda chyfran gwylwyr y brif sianel yn 5.9% a'r gyfran o wylwyr y portffolio yn 10.1% yn 2020 er gwaethaf y dirwedd ddarlledu gynyddol gystadleuol (Ffigur 3).²⁶ Er hynny, mae cyfran y gwylwyr i lawr gryn dipyn o'i chymharu â chyfran y brif sianel o 7.0% a chyfran y portffolio o 11.4% a sicrhawyd yn 2010,²⁷ ac mae newid yn arferion y defnyddwyr yn golygu bod gan wylwyr heddiw lawer iawn o ddewis bellach o ran yr hyn y maent yn ei wyllo a sut – ac maen nhw'n manteisio ar y dewis hwn. Gallai perchnogaeth trydydd parti a'r manteision a ddaw yn ei sgil ganiatáu i Channel 4 adeiladu ar y llwyddiant hwn a chystadlu'n fwy effeithiol â chwaraewyr newydd, gan ganiatáu iddi fod yn fwy ystwyth nag sy'n bosibl o dan berchnogaeth gyhoeddus.

Ffigur 2: Nifer y sianeli teledu yn ôl adroddiadau BARB²⁸



²³ Ofcom (2020): Media Nations 2020

²⁴ Channel 4 (2021): Annual Report 2020

²⁵ Channel 4 (2021): Annual Report 2020


²⁶ Channel 4 (2021): Annual Report 2020

²⁷ Channel 4 (2021): Annual Report 2020

²⁸ Rhestr BARB o'r sianeli y mae'n adrodd arnynt

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

Ffigur 3: Cyfran Channel 4 a chyfran portffolio Channel 4 o'r gynulleidfa



- **Mae'r cynnydd mewn cyllidebau cynhyrchu ar draws llwyfannau Fideo ar Alw (VoD) yn ei gwneud yn fwyfwy anodd i chwaraewyr domestig sydd heb fynediad at gyfalaf arwyddocaol i gefnogi buddsoddiad strategol gystadlu.** Adlewyrchir hyn ar draws nifer o genres, gan gynnwys dramâu o safon uchel. Mae gan Channel 4 gyllidebau cyfyngedig ar gyfer adnoddau a chynnwys a hynny yn rhinwedd ei pherchnogaeth gyhoeddus. Ar y llaw arall, mae chwaraewyr byd-eang gan gynnwys Netflix, Amazon a Disney wedi llwyddo i ysgogi adnoddau ariannol arwyddocaol, gyda gwariant Netflix ar gynnwys yn agos at \$18 biliwn yn 2019,²⁹ o'i gymharu â chyfanswm o £2.5 biliwn o wariant PSB ar raglenni rhediad cyntaf yn 2019.³⁰ Mae cyllidebau fesul awr yn cynyddu i adlewyrchu cynnwys o ansawdd uwch, gyda Netflix ac Amazon yn gwario cymaint â £15 miliwn yr awr ar gynhyrchu.³¹ Yn wir, ar draws Teledu Safon Uchel,³² mae'r gwariant cyfartalog fesul awr ar gynhyrchiadau domestig pur wedi aros ymhell o dan £2 filiwn yr awr, tra bo'r gyllideb ar gyfer rhaglenni sydd â buddsoddiad rhyngwladol bron yn £6 miliwn yr awr erbyn hyn ac mae'r bwlch yn debygol o ehangu wrth i'r chwaraewyr domestig weld grwpiau rhyngwladol sydd ag adnoddau gwell yn gwario mwy na nhw.³³ Gallai perchnogaeth

²⁹ Pwyllgor Cyfathrebu'r Arglwyddi (2019): Public service broadcasting: as vital as ever

³⁰ Ofcom (2020): Media Nations 2020

³¹ Pwyllgor Cyfathrebu'r Arglwyddi (2019): Public service broadcasting: as vital as ever

³² Cynhyrchiadau teledu sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rhyddhad treth teledu safon uchel (cyllideb o dros £1 miliwn yr awr, o leiaf 10% o'r gwariant craidd yn y Deyrnas Unedig, a bodloni prawf diwylliannol)


³³ British Screen Forum (2021): High-end Television Drama Investment: An Update

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

trydydd parti gyda'r mynediad gwell i gyfalaf a ddeuai yn ei sgil ganiatáu i Channel 4 arloesi ac addasu er mwyn aros ar y blaen.

- **Mae newidiadau technolegol hefyd yn gyfleoedd newydd i PSBs fuddsoddi ac addasu, wrth i ddewisiadau'r cynulleidfaoedd o ran ble maen nhw'n gwyllo cynnwys newid.** O'r rhai sy'n gwyllo gwasanaethau Tanysgrifiad VoD (SVoD) a gwasanaethau PSB, mae 77% yn dweud ei bod yn 'haws dod o hyd i rywbeth newydd i'w wyllo' ar wasanaethau SVoD.³⁴ Yn sgil y newid mewn arferion gwyllo, byddai Channel 4 yn elwa o'r gallu i fuddsoddi a thrawsnewid ei hun yn gynt yn ddarllledwr hybrid gydag arlwy llinellol a VoD ar draws sawl llwyfan. Hyd yn hyn, mae ei llwyfan VoD, All4, wedi perfformio'n dda gyda chyfanswm yr ymweliadau yn cyrraedd dros 1.25 biliwn yn 2020, mwy na dwbl y 620 miliwn o ymweliadau yn 2016 (Ffigur 4).³⁵ Perfformiodd y llwyfan yn arbennig o dda drwy gydol pandemig Covid-19, gyda defnydd All4 i fyny 54% o'r naill flwyddyn i'r llall pan oedd y cyfyngiadau ar symud yn eu hanterth.³⁶ Gallai perchennog newydd, â mynediad gwell a pharhaus at gyfalaf, y gallu i fanteisio ar bartneriaethau strategol, ac i helpu i ehangu i farchnadoedd rhyngwladol helpu i adeiladu ar lwyddiant Channel 4 yn y maes hwn, yn enwedig o ran yr oriau o gynnwys sydd ar gael ar-lein.

Ffigur 4: Ymweliadau â VoD digidol Channel 4 (miliynau)



1.3 Ysgogiadau i foderneiddio ac addasu

Gan fod mwy o ddewis ar gael i gynulleidfaoedd nag erioed o'r blaen ac yn sgil newidiadau yn y ffordd y mae pobl yn gwyllo'r teledu yn yr oes ddigidol, mae angen dybryd i ddarllledwyr

³⁴ Ofcom (2020): Public service broadcasting: quantitative research findings


³⁵ Channel 4 (2021): Annual Report 2020

³⁶ Dadansoddiad Enders (2020): Channel 4 2019, 2020 and beyond

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

teledu llinellol traddodiadol addasu eu modelau busnes ac arloesi er mwyn parhau'n berthnasol ac yn gystadleuol yn y farchnad. Mae gwell cysylltedd rhwydwaith wedi lleihau rhwystrau i fynediad ac yn golygu bod chwaraewyr fel Amazon wedi ymuno â'r farchnad ddarledu o farchnadoedd cyfagos. Mae ymddangosiad chwaraewyr rhyngwladol mawr fel Netflix, a'r cynnydd mewn gwyllo ar draws llwyfannau nad ydynt yn llinellol, yn codi heriau gwirioneddol i bob PSB o ran cynnal eu cyfran o'r gynulleidfa. Yn chwarter cyntaf 2021, gwylodd 66% o aelwydydd Netflix gyda mwy na hanner yn gwyllo Amazon Prime, tra cafodd All4 ei wyllo gan 41% (Ffigur 5).³⁷

Ffigur 5: Y gyfran o aelwydydd sy'n gwyllo rhaglenni, sioeau neu ffilmiau ar draws gwahanol lwyfannau fideo (2021 Chwarter 1)



Er mwyn ymateb i'r heriau hyn, mae'r llywodraeth o'r farn bod angen yn gyntaf i ddarledwyr gael mynediad at gyfalaf digonol, gan fod arloesi ac ymaddasu yn gofyn am fuddsoddiad ymlaen llaw ac yn barhaus. Mae angen cynnal y buddsoddiad hwn dros amser o gofio bod y sector yn dal i esblygu, ac felly bydd angen i ddarledwyr gael mynediad parhaus at gyfalaf digonol er mwyn osgoi cael eu gadael ar ôl. Mae gweithredwyr rhyngwladol mawr wedi dangos y gallu i wneud y buddsoddiadau hyn. Yn ail, mae angen iddynt fod mewn sefyllfa dda i weithredu'n gyflym, gan fanteisio ar bartneriaethau strategol, cyfleoedd i dyfu'n rhyngwladol, technolegau newydd a gwybodaeth am y diwydiant mewn amser real er mwyn aros ar y blaen mewn marchnad ddeinamig iawn.

O dan berchnogaeth gyhoeddus, mae Channel 4 wedi'i chyfyngu ar hyn o bryd rhag cymryd y camau hyn yn llawn. Hoff opsiwn y llywodraeth yw hwyluso newid ym mherchnogaeth Channel 4 i berchennog a all ddarparu'r mynediad angenrheidiol at gyfalaf a'r cyfleoedd strategol a'r cyfleoedd buddsoddi eraill y mae eu hangen er mwyn i Channel 4 addasu ac aros ar y blaen, gan sicrhau dyfodol Channel 4 fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus hyfyw a

³⁷ Ofcom (2021): Ofcom Technology Tracker 2021

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

chynaliadwy. Un gymhariaeth bosibl yma yw llwyddiant Channel 5 yn sgil ei gwerthu i ViacomCBS, pan welodd y sianel ei chyfran grŵp yn cynyddu o 5.8% i 6.4% yn y tair blynedd dilynol,³⁸ gan ennill gwobr 'Sianel y Flwyddyn' yn 2020 a bod yr unig PSB a welodd ei gyfran bob-awr yn cynyddu yn 2019.³⁹

Mae Channel 4 yn gweithio i foderneiddio'i model busnes o fewn paramedrau ei fframwaith gweithredu presennol. Y llynedd lansiodd Channel 4 ei strategaeth Future4,⁴⁰ sef cynllun uchelgeisiol a chynhwysfawr i drawsnewid y sefydliad yn ddarllledwr gwasanaeth cyhoeddus digidol yn gyntaf drwy ehangu ei llwyfannau ffrydio a'i llwyfannau cymdeithasol tra'n cynnal ei hamserlen linellol. Mae'r strategaeth yn adeiladu ar hanes cryf Channel 4 o arloesi digidol a bydd yn cyflymu ei newid i ddigidol drwy sbarduno gwylwyr ar-lein a refeniw newydd.

Mae gan Future4 dargedau clir ar gyfer mesur llwyddiant:

- dyblu'r gwyllo ar All4 erbyn 2025
- anelu at sicrhau bod hysbysebion digidol yn 30% o leiaf o gyfanswm y refeniw erbyn 2025
- anelu at sicrhau bod refeniw heblaw hysbysebion yn 10% o leiaf o gyfanswm y refeniw erbyn 2025.

Mae'r targedau hyn yn cael eu cynnal wedyn gan bedair colofn strategol i sicrhau eu bod yn cael eu bodloni:

1. blaenoriaethu twf digidol dros sgoriau llinellol
2. gosod y gwylwyr wrth galon y broses o wneud penderfyniadau
3. arallgyfeirio ffrydiau refeniw newydd i ategu cynaliadwyedd
4. canolbwyntio ar bartneriaethau strategol i gystadlu'n fwy effeithiol.

Er hynny, mae'r llywodraeth o'r farn bod statws Channel 4 fel cyhoeddwr-ddarllledwr, a'i mynediad cyfyngedig at gyfalaf yn rhinwedd ei pherchnogaeth gyhoeddus, yn cyfyngu ar allu Channel 4 i ymateb i ddeinameg newidiol y farchnad nawr ac yn y dyfodol, gan gynnwys ar ôl 2025, sef y cyfnod sy'n gysylltiedig â strategaeth bresennol Future4.

- **Statws fel cyhoeddwr-ddarllledwr** – mae Channel 4 yn gweithredu fel cyhoeddwr-ddarllledwr, gan ddarlledu rhaglenni y mae wedi'u comisiynu (neu wedi'u caffael fel arall) gan eraill. Yn wahanol i ddarllledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill a ariennir yn fasnachol, mae'n cael ei wahardd gan adran 295 o Ddeddf Cyfathrebu 2003 rhag bod yn rhan o'r gwaith o wneud rhaglenni i'w darlledu fel rhan o wasanaeth Channel 4, ac eithrio i'r graddau y gall Ofcom ganiatáu o bryd i'w gilydd. Gan hynny, mae ei model busnes yn dibynnu'n drwm ar refeniw hysbysebu, sy'n gylchol ei natur ac yn symud i ffwrdd o lwyfannau teledu llinellol i lwyfannau digidol. Mae cystadleuwyr Channel 4 wedi llwyddo i arallgyfeirio'u refeniw nhw drwy fuddsoddi mewn cynhyrchu. Er enghraifft, roedd cyfanswm refeniw allanol Grŵp ITV tua £3.3 biliwn yn 2019 ac roedd £2.1 biliwn ohono'n deillio o refeniw heblaw hysbysebion. Er gwaethaf Covid-19, roedd ei refeniw heblaw hysbysebion yn dal yn cyfrif am bron £1.7 biliwn yn 2020. ITV Studios yw'r cynhyrchydd masnachol mwyaf yn y Deyrnas Unedig gyda llyfrgell

³⁸ Dadansoddiad Enders (2017): Channel 5: three years on from Viacom's acquisition

³⁹ Broadcast (2020): Channel of the Year: Channel 5

⁴⁰ Channel 4 (2020): Future4 Strategy

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

gynnwys gyfunol o dros 46,000 o oriau. Sicrhaodd gyfanswm refeniw o gynhyrchu a dosbarthu o bron £1.4 biliwn yn 2020 er gwaethaf oedi wrth gynhyrchu a achoswyd gan Covid-19, i lawr o ryw £1.8 biliwn yn 2019. Cynhyrchir dros hanner refeniw ITV Studios y tu allan i'r Deyrnas Unedig.⁴¹ Yn y cyfamser, mae Channel 4 yn dal i ddibynnu ar refeniw hysbysebu gyda dros 90% o gyfanswm ei refeniw o £934 miliwn yn 2020 yn dod o refeniw hysbysebu a nawdd.⁴²

- **Mynediad at gyfalaf** – O dan y terfynau benthyca presennol a nodir yn y ddeddfwriaeth, mae Channel 4 wedi'i chyfyngu o ran mynediad at gyfalaf, sy'n cyfyngu ar ei chyfleoedd i fynd ar drywydd ffrwd incwm amrywiol. Mae hyn yn gadael refeniw a chynaliadwyedd ariannol Channel 4 o dan berchnogaeth gyhoeddus yn agored i ergydion sy'n effeithio ar refeniw hysbysebion. Rheolodd Channel 4 ddirywiad 2020 mewn refeniw hysbysebu yn effeithiol drwy dorri'n ôl ar fuddsoddiadau. Cafodd effaith y mesurau byrdymor hyn ar gyfran Channel 4 o'r gynulleidfa a'i safle cystadleuol ei chyfyngu gan effaith y pandemig ar draws y farchnad. Er hynny, mae'r ddibyniaeth hon ar hysbysebu yn peri risgiau o bwys wrth symud ymlaen, o gofio'r angen i ddarlledwyr llinellol gadw i fyny â marchnad gynyddol gystadleuol ar gyfer cynnwys a thalent a gwneud buddsoddiadau parhaus mewn llwyfannau digidol fel All4 (sy'n ganolog i lwyddiant strategaeth Future4 Channel 4). Hyd yn hyn, mae'r Senedd wedi cyfyngu benthyciadau Channel 4 i £200 miliwn, ac o dan ei model perchnogaeth presennol, nid oes gan Channel 4 yr opsiwn o godi cyfalaf drwy roi ecwiti i fuddsoddwyr trydydd parti. Fel corfforaeth gyhoeddus, cyfrifir benthyciadau Channel 4 fel benthyciadau gan y sector cyhoeddus ac maen nhw'n sgorio yn erbyn cyfanswm dyledion net y sector cyhoeddus. Byddai perchnogaeth newydd yn gyfle i Channel 4 sicrhau cyfalaf a'r manteision perthynol.
- **Cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus** – Dros amser, mae'r nodau polisi lefel-uchel ar gyfer Channel 4 wedi'u hymgorffori'n raddol mewn cylch gwaith ffurfiol sy'n ansoddol (gofyniad i ddarlledu rhaglenni amrywiol, arloesol a nodedig) a meintiol (cwtâu wedi'u gosod a'u monitro gan Ofcom sy'n ymdrin â sut mae Channel 4 yn buddsoddi mewn cynnwys a sut y daw'r cynnwys hwnnw i law). Mae'r llywodraeth yn cefnogi bodolaeth cylchoedd gwaith PSB yn gryf ac yn cydnabod bod rhwymedigaethau a osodir ar PSBs yn cael eu cydbwysu yn erbyn manteision materol, yn enwedig amlygrwydd a mynediad gwarantedig i'r sbectwm digidol. Ond, ar adeg pan fo arferion defnyddio'r cyfryngau yn newid, mae chwaraewyr sydd heb yr un rhwymedigaethau yn eu cylch gwaith wedi ymuno â'r farchnad, fel y gwelir yn ymddangosiad a thwf chwaraewyr masnachol nad ydynt yn PSBs ar draws y dirwedd deledu ddi-dâl dros y degawd diwethaf. Daeth adolygiad aml-flwyddyn diweddaraf Ofcom i'r casgliad bod Channel 4 wedi cyflawni ei dyletswyddau o ran cynnwys cyfryngau i raddau helaeth rhwng 2014 a 2018,⁴³ ac mae'n bwysig bod y cylch gwaith yn parhau i gyflawni ar ran y gynulleidfa a'i fod yn parhau'n berthnasol. Fel rhan o'r adolygiad o'r system PSB sydd ar ei hanner, bydd y llywodraeth yn ymgynghori maes o law ar reoleiddio gwasanaethau fideo-ar-alw.

⁴¹ ITV (2021): Annual Report 2020

⁴² Channel 4 (2021): Annual Report 2020

⁴³ Ofcom (2020): Channel 4 Corporation's performance in delivering its media content duties 2014–2018

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

Er mwyn sicrhau ei chynaliadwyedd hirdymor yn wyneb cystadleuaeth barhaus gan sefydliadau byd-eang a ariennir yn dda fel Amazon, Netflix a YouTube, barn y llywodraeth yw bod ar Channel 4 angen mynediad at gyfalaf arwyddocaol a pharhaus i arloesi ac addasu ar raddfa fwy. Mae angen hefyd i Channel 4 allu manteisio ar gyfleoedd i fod yn ddigon hyblyg yn ei phenderfyniadau buddsoddi i elwa ar bartneriaethau strategol posibl, cyfleoedd ehangu a datblygiadau technolegol.

Gan hynny, mae'r llywodraeth yn ystyried newidiadau ym mherchnogaeth Channel 4 i berchennog newydd a allai ddarparu'r mynediad angenrheidiol i'r sector preifat at gyfalaf ac ystwythder er mwyn sicrhau dyfodol Channel 4 fel PSB hyfyw a chynaliadwy.

2. Amcanion y llywodraeth

Mae'r llywodraeth am weld y diwydiannau creadigol yn cael eu hybu fel y gallant sbarduno twf economaidd, rhyddhau buddsoddiadau, creu swyddi ac adeiladu ar ein cystadleurwydd rhyngwladol. Mae gan ddarllenedwyr gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys Channel 4, rôl hanfodol i'w chwarae yn hyn o beth. Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd Channel 4 yn y dyfodol a darparu'r amgylchedd gorau iddi arloesi a thyfu, gan ganiatáu iddi barhau i gyfrannu'n economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol, **mae'r llywodraeth bellach yn ystyried newidiadau ym model perchnogaeth Channel 4. Mae achos cymhellol hefyd dros ystyried moderneiddio'r cylch gwaith a'r rhwymedigaethau a osodwyd ar Channel 4.**

2.1 Y rhesymeg dros ystyried newidiadau ym model gweithredu Channel 4

Fel y dywedwyd, mae'r llywodraeth o'r farn bod Channel 4 wedi llwyddo i gyflawni'r nodau a nodwyd wrth greu'r sianel, gan gynnwys cefnogi'r sector cynhyrchu annibynnol yn y Deyrnas Unedig, cynhyrchu cynnwys amrywiol sy'n cymryd risgiau a chyfrannu at nodau cyhoeddus ehangach darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae'n cael ei hariannu'n fasnachol yn gyfan gwbl, ac mae'n gallu gweithredu heb gymorth ariannol uniongyrchol, er bod presenoldeb mesurau sofran uniongyrchol wrth gefn yn cael effaith ar y sefydliad.

Er gwaethaf y llwyddiant hwnnw, gellir rhag-weld heriau yn y dyfodol i'r sector teledu llinellol yn ei gyfanrwydd. Mae'r rhain yn amlwg yn gymwys i Channel 4 ac, felly, i sicrhau ei chyfraniad parhaus yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol, mae angen iddi gadw i fyny â'r amgylchedd cystadleuol y mae'n gweithredu ynddo a'r newid yn newisiadau'r cynulleidfaoedd. Mae hyn yn cynnwys gallu arallgyfeirio ei ffrydiau incwm, buddsoddi mewn technoleg newydd, a chystadlu'n effeithiol â chwaraewyr newydd, a hynny'n gyflym.

O gofio mynediad cyfyngedig presennol Channel 4 at gyfalaf, gallai **newid perchnogaeth** roi mynediad i gyfleoedd cydweithredu a buddsoddi newydd i alluogi'r sianel i gystadlu'n effeithiol â chwaraewyr a ariennir yn dda mewn modd mwy ystwyth – rhywbeth y byddai'n anodd ei gyflawni o dan berchnogaeth gyhoeddus o gofio'r dulliau cyfyngedig sydd ar gael i Channel 4 o ganlyniad i'w statws presennol. Am y rhesymau hyn y mae'r llywodraeth o'r farn mai dyma'r adeg iawn i adolygu perthynas Channel 4 â'r llywodraeth. **Hoff opsiwn y llywodraeth yw hwyluso newid ym mherchnogaeth Channel 4, er mwyn sicrhau bod ganddi'r cyfle gorau i gael dyfodol llwyddiannus a chynaliadwy, gan gyfrannu yn y pen draw at ein cynlluniau ar gyfer twf yn y sector a'r diwydiannau creadigol ehangach, fel y nodir yng Nghynllun Twf y llywodraeth.**⁴⁴ Amlinellir amcanion unrhyw newid perchnogaeth o'r fath ymhellach ym Mhennod 4 (Amcanion newid perchnogaeth).

Yn fwy cyffredinol, mae'n bolisi a ddatganwyd yn glir gan y llywodraeth, lle bo modd gwireddu diben polisi cyhoeddus un o asedau'r llywodraeth yn fwy effeithlon os yw'r ased mewn perchnogaeth breifat, caiff y llywodraeth ddewis gwerthu, neu ystyried gwerthu, yr ased hwnnw, cyhyd ag y gall sicrhau gwerth am arian a bod amodau'r farchnad yn gefnogol. Gan gydnabod yr heriau sy'n wynebu'r sector PSB, a'r cyfyngiadau a osodir ar Channel 4 yn rhinwedd ei pherchnogaeth gyhoeddus, mae'r llywodraeth o'r farn mai perchnogaeth breifat

⁴⁴ Llywodraeth y Deyrnas Unedig (2021): Building Back Better: Our Plan for Growth

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

sy'n debygol o wasanaethu gallu Channel 4 i gystadlu, parhau i ateb ei diben cyhoeddus a chyfrannu gwerth i'r Deyrnas Unedig.

2.2 Nodau a blaenoriaethau ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus

Mae system darlledu gwasanaeth cyhoeddus y Deyrnas Unedig yn deillio o gyfres o ymyriadau rheoleiddio a fwriadwyd i sicrhau y gall cynulleidfaoedd y Deyrnas Unedig fwynhau ystod eang o raglenni o ansawdd uchel sy'n ateb anghenion pobl fel dinasyddion a'u buddiannau fel unigolion. Craidd hyn yw'r cysyniad bod teledu'n cael cyfle i gyfrannu at fywyd diwylliannol, economaidd a democrataidd y Deyrnas Unedig, gartref a thros y môr, ond am resymau sy'n cynnwys methiant y farchnad ni fydd yn cyflawni hyn yn effeithiol heb fframwaith rheoleiddio cadarn. Mae ecosystem darlledu gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn chwarae rhan bwysig o ran cefnogi'r economi creadigol ehangach drwy ei chyfraniad i'r ecoleg ddarlledu ehangach, megis drwy fuddsoddiad parhaus yn y gwledydd a'r rhanbarthau, datblygiad parhaus y piblinellau sgiliau a thalent, a'r gystadleuaeth ehangach rhwng PSBs a chwaraewyr eraill sy'n parhau i adeiladu'r Deyrnas Unedig fel canolfan creadigol.

Nid oes un darn o ddeddfwriaeth sy'n rhychwantu darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ond mae Deddf Cyfathrebu 2003 yn darparu llawer o'r blociau adeiladu allweddol. Er enghraifft, mae'n dynodi rhai darlledwyr yn 'ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus' (sef y BBC, ITV, STV, Channel 4, Channel 5 ac S4C ar hyn o bryd).

Mae'r llywodraeth yn cydnabod bod y system PSB yn darparu gwerth arwyddocaol ledled y Deyrnas Unedig, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl, eu haddysgu a'u diddanu bob dydd. Ond, mae yna gonsensws cynyddol bod angen i system PSB y Deyrnas Unedig esblygu, os yw am drosglwyddo'n llwyddiannus i'r oes ddigidol. Mae newid mewn technoleg, cynnydd mewn cystadleuaeth o du cwmnïau byd-eang a ariennir yn dda (lle rydym yn gweld ton o gwmnïau'n cydgrynhai) yn gallu ysgogi adnoddau ariannol arwyddocaol, yn ogystal â datblygiadau ehangach mewn meysydd fel arferion cynulleidfaoedd a disgwyliadau yn cael effaith arwyddocaol ar gynaliadwyedd ariannol a strwythur cyffredinol y diwydiant.

Gan hynny, mae'r llywodraeth yn awyddus i sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn dal i elwa o system fodern, gynaliadwy a llwyddiannus o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus sy'n parhau'n berthnasol ac sy'n gallu parhau i ateb anghenion cynulleidfaoedd y Deyrnas Unedig yn y dyfodol. Dylai Channel 4 barhau i chwarae rhan yn llwyddiant y system PSB yn y dyfodol, ac yn wir, dylai fod yn gyfrannwr pwysig iddi, er ei bod yn parhau'n briodol i'r rôl honno gael ei hystyried yng nghyd-destun nodau a blaenoriaethau ehangach y llywodraeth ar gyfer PSB.

Barn bresennol y llywodraeth yw y dylai Channel 4, o dan unrhyw strwythur perchnogaeth, barhau i chwarae rhan bwysig mewn PSB, fel y trafodir ymhellach ym Mhennod 3 (Moderneiddio cylch gwaith a rhwymedigaethau Channel 4). Er hynny, yng ngoleuni'r esblygu strwythurol sy'n wynebu'r diwydiant darlledu yn ei gyfanrwydd, mae'n iawn archwilio pob model perchnogaeth posibl.

3. Moderneiddio cylch gwaith a rhwymedigaethau Channel 4

Gan gymryd i ystyriaeth nodau a blaenoriaethau'r llywodraeth ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r angen i archwilio pob opsiwn posibl, **mae'n briodol ystyried moderneiddio cylch gwaith a rhwymedigaethau Channel 4**. Mae cylch gwaith a rhwymedigaethau presennol Channel 4 wedi'u seilio'n bennaf ar y sylfeini adeiladu allweddol ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus fel y'u nodir yn Neddf Cyfathrebu 2003, gyda newidiadau pellach wedi'u gwneud yn Neddf yr Economi Digidol 2010. Mae hyn yn codi'r cwestiwn pa mor berthnasol yw cylch gwaith a rhwymedigaethau Channel 4 heddiw o gofio'r newid yn y dirwedd darlledu.

3.1 Ei gwerth fel gwasanaeth cyhoeddus cymdeithasol

Codi'r gwastad

Mae'r llywodraeth yn cydnabod ymrwymiad Channel 4 at godi'r gwastad a'i chefnogaeth i economïau cenedlaethol a rhanbarthol. Cyfrannodd Channel 4 £992 miliwn i economi'r Deyrnas Unedig yn 2019, gan gynnwys £274 miliwn i'r economi rhanbarthol, a chefnogi dros 3000 o swyddi hefyd yn y gwledydd a'r rhanbarthau.⁴⁵ Yn 2018, cyhoeddodd Channel 4 '4 All the UK', sef strategaeth i sicrhau bod Channel 4 yn gwasanaethu'r Deyrnas Unedig gyfan. Wrth wraidd y strategaeth ceir cynnydd arwyddocaol yng ngwariant Channel 4 ar gynnwys 'cenhedloedd a rhanbarthau', o'i gwota presennol o 35% o wariant y tu allan i'r M25 i darged gwirfoddol newydd o 50% erbyn 2023, sef gwerth hyd at £250 miliwn i gyd. Mae'r cwota hwn yn gymwys i wariant a nifer yr oriau o raglenni. At hynny, rhaid cynhyrchu 9% o oriau rhaglenni a gwariant y Deyrnas Unedig y tu allan i Loegr (h.y. yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon). Mae Channel 4 wedi gwneud yn well yn gyson na'i chwota ar gyfer gwariant a nifer yr oriau o raglenni a gomisiynwyd gan gwmnïau cynhyrchu sydd wedi'u lleoli yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

Yn 2017, ymgynghorodd y llywodraeth ar gynyddu effaith ranbarthol Channel 4 ac yn 2019, lansiodd Channel 4 ei phencadlys cenedlaethol newydd yn Leeds yn swyddogol,⁴⁶ a fydd yn helpu i gefnogi datblygiad clwstwr creadigol newydd yn y rhanbarth wrth i Channel 4 feithrin perthynas gryfach â chomisiynwyr a chynhyrchwyr lleol, yn ogystal ag agor cyfleoedd newydd i bobl ddechrau gyrfa yn niwydiant y cyfryngau. Cyhoeddodd Channel 4 yn ddiweddar y byddai bron 400 o swyddi wedi'u lleoli y tu allan i Lundain erbyn diwedd 2021 Mae gweithgaredd Channel 4 yn Glasgow wedi helpu i gefnogi ecosystem gynhyrchu gref, gan gynnwys gwario £148 miliwn ar gynyrchiadau yn yr Alban ar gyfer ei phrif sianel ers 2011.⁴⁷

⁴⁵ EY/Channel 4 (2021): Channel 4's contribution to the UK

⁴⁶ Llywodraeth y Deyrnas Unedig (2017): Consultation on Increasing the Regional Impact of Channel 4

⁴⁷ EY/Channel 4 (2021): Channel 4's contribution to the UK

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

Yn 2021, lansiodd Channel 4 y gyfres gyntaf o'i mentrau 4Skills a gynlluniwyd i roi cyfleoedd datblygu gyrfa a hyfforddiant yn y diwydiant darlledu i bobl ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau. Bydd y mentrau hyn – Cynllun Hyfforddeion Cynhyrchu Channel 4, Prentisiaethau Channel 4, Lleoliadau 4Studio, a'r bartneriaeth Darpar Gyfreithwyr – yn cynnig hyfforddiant, profiad gwaith a lleoliadau i fwy na 50 o bobl ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau. Yn fwyaf diweddar, lansiodd Channel 4 gynllun hyfforddi newydd, Content Creatives, wedi'i anelu at bobl ifanc 18-24 oed o gefndiroedd sosio-economaidd is o bob rhan o Swydd Efrog. Mae'r cynllun yn gweithio gyda'r Ganolfan Byd Gwaith i recriwtio ymgeiswyr a chynnig cynllun hyfforddi â thâl am 12 wythnos iddynt, gan gynnwys pedair wythnos yn gweithio gyda thîm 4 Studio yn Leeds.

Gan hynny, mae'r llywodraeth o'r farn y gallai ymrwymiad parhaus ac o'r newydd i godi'r gwastad gael ei gysylltu'n briodol ag unrhyw newid mewn perchnogaeth wrth i'r llywodraeth geisio gwella safonau byw, buddsoddiadau, cyfleoedd a chanlyniadau ledled y wlad. Gallai hyn gynnwys ymrwymadau bod pencadlys cenedlaethol newydd Channel 4 yn Leeds yn cael ei chadw fel un gofyniad fel rhan o unrhyw newid mewn perchnogaeth. Yn yr un modd, os yw'n ddymunol, mae cyfle i barhau (neu hyd yn oed wella) y gofyn bod rhaid i wariant Channel 4 gael ei wneud ledled y Deyrnas Unedig gyfan a bod rhaid darparu cynnwys sy'n cynrychioli cymunedau ledled y Deyrnas Unedig.

Cynnwys gwreiddiol ac amrywiol

Ar hyn o bryd ac fel darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill a ariennir yn fasnachol, rhaid i Channel 4 ddarlledu cyfran ac ystod benodol o gynnwys 'gwreiddiol', gyda Channel 4 yn canolbwyntio ar gynhyrchu cynnwys arloesol sy'n cymryd risgiau sy'n apelio at chwaeth a diddordebau cymdeithas sy'n ddiwylliannol amrywiol. Mae Channel 4 yn dod o dan ofynion ansoddol ar draws ei sianelau a gofynion meintiol, neu gwtâu, ar gyfer ei phrif sianel ddarlledu. Yn 2020, dangosodd Channel 4 165 o raglenni newydd a rhaglenni untro ar ei phrif sianel yn ei hamserlenni gyda'r nos (rhwng 6pm a hanner nos). Dyma'r mwyaf o unrhyw sianel PSB heblaw Channel 5, a oedd wrthi'n gosod comisiynau newydd yn lle Big Brother.⁴⁸ Mae Channel 4 yn perfformio'n uwch na'r cyfartaledd yn gyson yn Arolwg Tracio PSBs Ofcom yn erbyn y gosodiadau: 'Mae'n dangos rhaglenni sydd â syniadau newydd/dulliau gwahanol' ac 'Mae arddull y rhaglenni yn wahanol i'r hyn y byddwn i'n disgwyl ei weld ar sianeli eraill'.

Gan gymryd i ystyriaeth bod cylch gwaith Channel 4 yn ei gwneud yn ofynnol iddi apelio at chwaeth a diddordebau cymdeithas sy'n ddiwylliannol amrywiol, mae Channel 4 yn ceisio sbarduno amrywiaeth ar y sgrin ac oddi arni, yn ogystal â thrwy ei chadwyn gyflenwi a'i hysbysebion. Bydd pencadlys a hybiau creadigol newydd Channel 4 ym Mryste a Glasgow, ochr yn ochr â'i swyddfeydd ym Manceinion, yn gartref i 400 o swyddi Channel 4 pan fyddant wedi'u sefydlu'n llawn, gan gynnwys y rhai sy'n gwneud penderfyniadau creadigol allweddol ac sy'n gyfrifol am gomisiynu cynnwys a rhaglenni Channel 4 gan gynhyrchwyr ledled y Deyrnas Unedig ac sy'n adlewyrchu amrywiaeth ei phoblogaeth. Mae'r llywodraeth yn gweld y gwerth a geir i'r gymdeithas drwy'r rhwymedigaethau sydd ar Channel 4 i ddarlledu cynnwys sy'n apelio at gynulleidfa oed ifanc ac amrywiol, ac i arddel dull sy'n fwy seiliedig ar risg wrth ymdrin â chynnwys o'i chymharu â PSBs eraill a ariennir yn fasnachol. Gan hynny, mae'r llywodraeth yn bwriadu cadw rhwymedigaethau o'r fath, er y bydd yn bwysig sicrhau

⁴⁸ Channel 4 (2021): Annual Report 2020

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

nad yw ei chylch gwaith yn llyffetheirio cynaliadwyedd Channel 4 yn y dyfodol na'i gallu i ddarparu cynnwys perthnasol ac o safon, o gofio'r datblygiadau yn nhirwedd y cyfryngau, gyda chynulleidfaoedd ifanc yn fwyfwy tebygol o ddefnyddio cynnwys ar lwyfannau nad ydynt yn llinellol, fel gwasanaethau VoD er enghraifft.

Newyddion a materion cyfoes

Er bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dod o dan rwymedigaethau i gyflwyno rhaglenni newyddion a materion cyfoes, mae'n ofynnol ar hyn o bryd i Channel 4 ddarparu mwy o newyddion a materion cyfoes cenedlaethol nag ITV neu Channel 5. Yn gyffredinol, rhaid i Channel 4 ddarparu dim llai na 208 o oriau y flwyddyn yn ystod oriau brig, yn ogystal â 208 o oriau y flwyddyn o faterion cyfoes (80 ar yr oriau brig). O ran cymhariaeth, mae'n ofynnol ar hyn o bryd i Channel 5 ddarparu 280 o oriau y flwyddyn o newyddion er mai dim ond 120 o oriau y mae'n rhaid eu dangos yn ystod oriau brig, ynghyd â 130 o oriau y flwyddyn o faterion cyfoes (10 awr yn ystod oriau brig). Yn 2019, gwnaeth Channel 5 yn well na'i chwtâu, gan ddarparu 163 o oriau o'i 305 o oriau o newyddion yn ystod oriau brig a darparu 548 o oriau o raglenni materion cyfoes, er mai dim ond 21 awr a ddangoswyd yn ystod oriau brig, ymhell islaw Channel 4.⁴⁹

Ar hyn o bryd, mae'r llywodraeth o'r farn y dylai rhwymedigaethau presennol Channel 4 ynglŷn â darparu llawer o newyddion a materion cyfoes gael eu cadw'n fras mewn unrhyw ddiwygiad posibl.

- ***A ddylai Channel 4 barhau â'i chyfraniad at godi'r gwastad yn rhanbarthau a chenhedloedd y Deyrnas Unedig drwy gadw presenoldeb y tu allan i Lundain a chylch gwaith cynhyrchu rhanbarthol cryfach? Rhowch dystiolaeth ategol.***
- ***A ddylai'r llywodraeth ddiwygio cylch gwaith a rhwymedigaethau Channel 4 i sicrhau ei bod yn dal yn berthnasol mewn marchnad ddarparu sy'n esblygu? Os dylai, pa newidiadau y dylid eu gwneud (a allai gynnwys rhyddidau newydd neu newidiadau yn ei rhwymedigaethau)? Rhowch dystiolaeth ategol.***

3.2 Ei heffaith ar yr economi creadigol

Wrth ystyried rôl Channel 4 yn y dyfodol, un o amcanion craidd y llywodraeth yw nid yn unig diogelu cyfraniad sylweddol Channel 4 i economi creadigol y Deyrnas Unedig, ond ei gwella. Mae'n rhan o'r diwydiannau creadigol, sy'n un o gryfderau diamheuol ein heconomi, ac yn un o'i sectorau sy'n tyfu gyflymaf. Cyfrannodd y diwydiannau creadigol dros £116 biliwn mewn GVA a chefnogi dros 2 filiwn o swyddi yn 2019.⁵⁰ Mae Channel 4 ei hun yn gwneud cyfraniadau economaidd a chymdeithasol arwyddocaol i'r Deyrnas Unedig, gan gynhyrchu cyfanswm cyfraniad GVA o £992 miliwn yn 2019, y cynhyrchwyd £274 miliwn ohono yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Roedd hefyd yn cefnogi tua 10,600 o swyddi ledled y Deyrnas Unedig gan gynnwys bron 3,000 yn y gwledydd a'r rhanbarthau.⁵¹ Ar hyn o bryd mae'n ofynnol i Channel 4 gefnogi sector cynhyrchu annibynnol y Deyrnas Unedig, sef rhywbeth y

⁴⁹ Ofcom (2020): PSB Annual Compliance Report 2020

⁵⁰ Dadansoddiad y DCMS

⁵¹ EY/Channel 4 (2021): Channel 4's contribution to the UK

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

mae wedi cael llwyddiant mawr wrth ei wneud, gyda buddsoddiad Channel 4 yn y sector yn dal i gyfrif am tua 15% o'i refeniw.⁵² Ochr yn ochr â hyn, mae hefyd yn ofynnol i Channel 4 fuddsoddi mewn gwneud ffilmiau – a wneir drwy adran Film4 – a chefnogi'r gwaith o ddatblygu pibell dalent sy'n cefnogi'r rhai sy'n ymuno â'r sector.

Wrth ystyried amcanion allweddol eraill y llywodraeth yn rôl bosibl Channel 4 yn economi creadigol y Deyrnas Unedig yn y dyfodol, mae'r llywodraeth yn bwriadu cadw'r ymrwymiad i weithredu'r brif sianel ddarledu fel sianel PSB am ddim. Ond, er y gellid ffafrio ymrwymiad tebyg i gefnogaeth barhaus i sector cynhyrchu annibynnol y Deyrnas Unedig, mae'n werth ystyried a oes angen mesurau cyfredol fel y cyfyngiad cyhoeddwr-ddarledwr o hyd, yn enwedig gan y byddent yn cael effaith gyfyngol ar allu Channel 4 i gynyddu ei hincwm masnachol ac felly ei buddsoddiadau.

Mae sector cynhyrchu annibynnol y Deyrnas Unedig yn ffynnu ar hyn o bryd ac yn llai a llai dibynnol ar incwm o ddarledwyr gwasanaeth cyhoeddus y Deyrnas Unedig. Yn y 10 mlynedd rhwng 2008 a 2018, gostyngodd cyfraniad comisiynau PSB at refeniw'r sector o 64% i 42%, yn rhannol oherwydd twf refeniw rhyngwladol.⁵³ Er bod Channel 4 yn dal i fod yn chwaraewr o bwys yn y sector (gan gyfrannu £492 miliwn yn 2019,⁵⁴ tua 15% o refeniw'r sector o £3.3 biliwn⁵⁵ cyn syrthio i £370 miliwn yn 2020 yn sgil effeithiau Covid-19⁵⁶), ar y cyfan, mae'r llywodraeth yn asesu y gallai gwahanu neu ddileu'r cyfyngiad cyhoeddwr-ddarledwr mewn diwygiadau posibl alluogi Channel 4 i sicrhau mwy o arallgyfeirio ariannol o gofio'r cyfyngiadau sy'n deillio o'r cyfyngiad ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn gwahardd Channel 4 rhag bod yn rhan o'r gwaith o wneud rhaglenni i'w darledu fel rhan o'i gwasanaeth ei hun, sy'n effeithio ar ei gallu i gynhyrchu eiddo deallusol newydd i'w werthu ledled y byd ac arallgyfeirio'i refeniw. Mae hefyd yn atal Channel 4 rhag agor manteision strategol, megis gallu cadw rhaglenni adeg eu hadnewyddu heb y risg o chwyddiant prisiau.

Nid yw ITV yn dod o dan yr un cyfyngiad ac felly mae wedi llwyddo i ehangu ei gangen gynhyrchu yn llwyddiannus, ITV Studios, sy'n creu ac yn cynhyrchu cynnwys ar draws 12 gwlad, tra bo'i fformatau byd-eang a'i fusnes dosbarthu yn gwerthu, yn masnacheiddio ac yn dosbarthu fformatau a rhaglenni gorffenedig ledled y byd. Yn y blynyddoedd cyn Covid-19, cynhyrchodd ITV dros 8,000 o oriau o gynnwys y flwyddyn yn gyson a hyd yn oed er gwaethaf y pandemig llwyddodd i gynhyrchu 7,120 o oriau o gynnwys yn 2020, gydag ITV Studios yn dod â bron £1.4 biliwn mewn refeniw (Ffigur 6).⁵⁷ Mae arallgyfeirio i mewn i gynhyrchu hefyd yn anodd yn sgil y cyfyngiadau masnachol sy'n deillio o fodel presennol Channel 4. Er enghraifft, mae'n cyfyngu ar ei chyfleoedd i gyd-berchnogi cwmnïau cynhyrchu. Efallai y gallai Channel 4 arallgyfeirio i gynhyrchu yn yr un modd pe bai'r cyfyngiad presennol ar gyhoeddwr-ddarledwr yn cael ei wanhau neu ei ddileu a phe bai ganddi'r mynediad at gyfalaf a phartneriaethau newydd a fyddai'n caniatáu iddi wneud hynny. Byddai arallgyfeirio fel hyn hefyd yn agor cyfleoedd newydd i Channel 4 fanteisio ar hawliau eilaidd yn ddomestig ac yn rhyngwladol, gan gynnwys drwy ddefnyddio mwy o

⁵² Dadansoddiad y DCMS

⁵³ O&O/PACT (2020): UK Television Production Survey Financial Census 2020

⁵⁴ Channel 4 (2020): Annual Report 2019

⁵⁵ O&O/PACT (2020): UK Television Production Survey Financial Census 2020


⁵⁶ Channel 4 (2021): Annual Report 2020

⁵⁷ ITV (2021): Annual Report 2020

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

nwyddau a chynhyrchion digidol fel gemau. Wrth wneud hynny, gallai hyn agor cyfleoedd ar gyfer mwy o dwf economaidd a chreu swyddi.

Ffigur 6: Refeniw Channel 4 ac ITV yn 2020 yn ôl y ffynhonnell (£ miliynau)



Wrth wneud unrhyw newid yn y cyfyngiad cyhoeddwr-ddarledwr, nodir y gallai hyn greu goblygiadau ar gyfer sector cynhyrchu annibynnol y Deyrnas Unedig, ac mae'r llywodraeth yn barod i ystyried opsiynau eraill i liniaru'r effaith hon. Er enghraifft, mae eisoes yn ofynnol i Channel 4 (a phob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus arall) sicrhau bod 25% o'u cynnwys PSB yn cael ei gomisiynu oddi wrth gynhyrchwyr annibynnol. Gellid gwella'r rhwymedigaeth hon i liniaru'r goblygiadau i gynhyrchwyr annibynnol a rhoi cyfle yr un pryd i Channel 4 arallgyfeirio i mewn i gynhyrchu er mwyn ei amddiffyn ei hun rhag newidiadau yn y sector.

Mae'r llywodraeth hefyd yn cydnabod effaith arwyddocaol a pharhaus Film4 wrth i Channel 4 gyflawni rhwymedigaethau presennol ynglŷn â buddsoddi yn sector ffilm y Deyrnas Unedig. Dylid ystyried effaith unrhyw newid ym mherchnogaeth Channel 4 ar y sector ffilm, a byddai'r llywodraeth yn sicrhau na châi unrhyw ddiwygiad i Channel 4 effaith ormodol ar y sector ffilm

- ***A ddylai'r llywodraeth ddileu'r cyfyngiad cyhoeddwr-ddarledwr er mwyn cynyddu gallu Channel 4 i arallgyfeirio'i ffrydiau refeniw masnachol? Rhowch dystiolaeth ategol.***

4. Amcanion newid perchnogaeth

Mae'r llywodraeth wrthi'n ystyried newidiadau ym model gweithredu Channel 4, gan gynnwys ei pherchnogaeth. Bydd cyfnod trwyddedu presennol Channel 4 yn dod i ben ddiwedd 2024 ac felly mae'n bwysig cael sicrwydd hirdymor am ddyfodol y Gorfforaeth cyn i'r broses honno ddod i ben. Mae'r broses bresennol, fel y'i nodir yn Neddf Darlledu 1990, yn golygu mai dim ond y Gorfforaeth a all ddal trwydded Channel 4. O gofio y gallai model perchnogaeth amgen sicrhau Channel 4 fwy llwyddiannus a chynaliadwy, mae'r llywodraeth yn credu mai dyma'r adeg iawn i adolygu perthynas Channel 4 â'r llywodraeth.

Ar hyn o bryd, mae cyfleoedd Channel 4 i fynd ar ôl ffrydiau incwm amrywiol wedi'u cyfyngu gan berchnogaeth gyhoeddus, yn enwedig y cyfyngiad cyhoeddwr-ddarlledwr (yr edrychwyd arno mewn adrannau cynharach) a'i mynediad cyfyngedig at gyfalaf. **Mae'r cyfyngiad ar fynediad at gyfalaf yn nodwedd greiddiol ar statws Channel 4 fel corfforaeth gyhoeddus, gan ei bod yn rhan o'r sector cyhoeddus ac felly'n rhan o fframwaith cyllid y llywodraeth.** Mae hyn yn golygu bod buddsoddiadau Channel 4 ynghlwm yn uniongyrchol wrth fenthyciadau net y sector cyhoeddus a bod ei rhwymedigaethau'n cyfrannu at ddyled net y sector cyhoeddus. Hyd yn hyn, mae'r Senedd wedi cyfyngu benthyciadau Channel 4 i £200 miliwn, ac yn ymarferol nid yw wedi gwneud defnydd arwyddocaol ar gyllid allanol. Yn lle hynny, dull Channel 4 yn y senario hwn fu cynnal sefyllfa ariannol gadarn gyda balansau arian parod sylweddol i sicrhau ei bod yn parhau'n hunangynhaliol yn ariannol. Yn wir, hyd yn oed yn sgil yr ergyd i'r sector a achoswyd gan Covid-19, llwyddodd y sianel i osgoi defnyddio unrhyw ran o'r cyfleuster credyd cylchol gwerth £75 miliwn a dynnodd i lawr ar y dechrau, gan ddewis lleihau'r cyllidebau ar gyfer cynnwys yn ôl £138 miliwn⁵⁸ a dod o hyd i arbedion yn y sefydliad er mwyn gwarchod ei sefyllfa ariannol. Yn yr un modd, fel corfforaeth statudol, nid oes gan Channel 4 yr opsiwn o godi cyfalaf drwy roi ecwiti i fuddsoddwyr trydydd parti.

Pe bai Channel 4 yn sicrhau partner newydd a chanddo mynediad at gyfalaf, a phe bai'n rhydd rhag y cyfyngiadau ar fenthycia a osodwyd arni yn rhinwedd ei pherchnogaeth gyhoeddus, gallai hyn gyflymu ei gallu i oroesi newidiadau yn y farchnad tra'n parhau i fuddsoddi mewn cynnwys ac yn y sefydliad. Gallai hefyd ganiatáu iddi drosglwyddo i ddyfodol 'digidol yn gyntaf' a diogelu cynaliadwyedd hirdymor ei busnes. Gallai partner newydd hefyd ddarparu arbenigedd a chyfleoedd newydd ar gyfer gweithredu ar y cyd a gweithredu ar raddfa ehangach.

Mae gan y llywodraeth hanes o werthu asedau i wella mynediad at gyfalaf, lleihau risg i'r trethdalwyr a pharhau i gyflawni dros y cyhoedd, gan gynnwys gwerthu cyfrannau yn y Post Brenhinol yn 2013. Cyn cael ei werthu, roedd y Post Brenhinol yn llai effeithlon na llawer o gwmnïau post mewn mannau eraill yn Ewrop, ac nid oedd ganddo'r hyder masnachol, y cyfalaf na'r profiad corfforaethol i foderneiddio'n gyflym ac yn effeithiol. Mae preifateiddio wedi gwella mynediad i gyfalaf y sector preifat ac wedi lleihau'r risg i'r trethdalwyr heb beryglu'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol a osodwyd ar y gwasanaeth post.⁵⁹

⁵⁸ Channel 4 (2021): Annual Report 2020

⁵⁹ Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2014): The Privatisation of Royal Mail

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

Nid yw sicrhau partner newydd i Channel 4 yn golygu nad oes modd moderneiddio'i chylch gwaith a'i rhwymedigaethau i sicrhau ei chynaliadwyedd yn y dyfodol a'i chyfraniad economaidd, cymdeithasol a diwylliannol parhaus i'r Deyrnas Unedig. Byddai'r llywodraeth am weld ymrwymadau cryf i'r amcanion hyn gan unrhyw berchennog newydd er mwyn sicrhau bod Channel 4, gyda'i statws parhaus fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus a chylch gwaith perthnasol, yn cyflawni ar ran ei chynulleidfa, ac yn dal i gyfrannu at ecoleg ehangach PSB. Rydym yn credu y byddai hyn yn caniatáu iddi ymateb i'r heriau a geir yn y farchnad heddiw ac wedyn. Byddai cadw statws PSB hefyd yn caniatáu i Channel 4 barhau i elwa o safle amlwg mewn canllawiau rhaglenni electronig. Yn y pen draw, mae'r llywodraeth am weld Channel 4 lwyddiannus a ffyniannus, sy'n dal i sbarduno twf economaidd a chreu swyddi. Mae'r llywodraeth o'r farn mai Channel 4 y tu allan i berchnogaeth gyhoeddus fyddai'n cyflawni hyn orau.

Nid yw'r rhesymeg dros greu Channel 4 yn adlewyrchu'r dirwedd ddarlledu mwyach, gan fod gan ddefnyddwyr bellach fwy o ddewis nag erioed, sy'n ysgogi tensiwn cystadleuol ar draws y farchnad. Gyda hynny mewn golwg, ac o gofio'r rhesymeg a nodir dros ystyried newidiadau ym model gweithredu Channel 4, nid yw'r llywodraeth o'r farn bod yna fudd na chyfiawnhad dros gadw cyfran o'r Gorfforaeth mewn perchnogaeth gyhoeddus. Ar y cyfan, byddai'r llywodraeth o blaid mynd ar drywydd gwerthiant llawn (100%) o'r Gorfforaeth pe bai unrhyw newid mewn perchnogaeth yn digwydd. O gofio bod Channel 4 yn gorff statudol ar hyn o bryd, pe bai newid mewn perchnogaeth yn digwydd yna fe fyddai angen deddfwriaeth sylfaenol i alluogi hyn a'i throi'n gorff y gall darpar brynwyr fod yn berchen arno.

5. Rhestr o holl gwestiynau'r ymgynghoriad

Manylion yr Atebydd

Ydych chi'n ymateb:

- fel unigolyn (gwyliwr)
- ar ran busnes
- arall (rhowch y manylion)

Os ydych yn ymateb ar ran busnes, pa ddiwydiant yw'r disgrifiad gorau o waith y busnes?

Y prif gwestiynau

1. Ydych chi'n cytuno bod yna heriau yn y farchnad darlledu teledu bresennol sy'n creu rhwystrau sy'n atal Channel 4 gynaliadwy mewn perchnogaeth gyhoeddus? Rhowch dystiolaeth ategol.
 - Ydw
 - Nac ydw
 - Ansicr
2. A fyddai Channel 4, gyda thrwydded a chylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus parhaus, mewn gwell sefyllfa i gyflawni nodau'r llywodraeth ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn gynaliadwy pe bai y tu allan i berchnogaeth gyhoeddus? Rhowch dystiolaeth ategol.
 - Byddai
 - Na fyddai
 - Ansicr

Ei gwerth fel gwasanaeth cyhoeddus cymdeithasol

3. A ddylai Channel 4 barhau â'i chyfraniad at godi'r gwastad yn rhanbarthau a chenhedloedd y Deyrnas Unedig drwy gadw presenoldeb y tu allan i Lundain a chylch gwaith cynhyrchu rhanbarthol cryfach? Rhowch dystiolaeth ategol.
 - Dylai
 - Na ddylai
 - Ansicr
4. A ddylai'r llywodraeth ddiwygio cylch gwaith a rhwymedigaethau Channel 4 i sicrhau ei bod yn dal yn berthnasol mewn marchnad ddarlledu sy'n esblygu? Os dylai, pa newidiadau y dylid eu gwneud (a allai gynnwys rhyddidau newydd neu newidiadau yn ei rhwymedigaethau)? Rhowch dystiolaeth ategol.
 - Dylai
 - Na ddylai
 - Ansicr

Ei heffaith ar yr economi creadigol

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

5. A ddylai'r llywodraeth ddileu'r cyfyngiad cyhoeddwr-ddarledwr er mwyn cynyddu gallu Channel 4 i arallgyfeirio'i ffrydiau referniw masnachol? Rhowch dystiolaeth ategol.
- Dylai
 - Na ddylai
 - Ansicr

Cwestiynau eraill

6. Gan gyfeirio at dystiolaeth ategol, beth fyddai'r costau a'r manteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol pe bai Channel 4 yn symud allan o berchnogaeth gyhoeddus ar y canlynol:

- a. Profiad cyffredinol y gynulleidfa?
- b. Corfforaeth Deledu Channel 4 ei hun?
- c. Buddsoddi yn y sector cynhyrchu annibynnol?
- d. Buddsoddi yn y sector ffilm annibynnol?
- e. Y farchnad hysbysebu ar y teledu?
- f. Buddsoddi yn y sector diwydiannau creadigol yn ehangach?
- g. Cystadleuaeth rhwng Channel 4 a sianeli nad ydyn nhw'n PSBs?
- h. Rhanbarthau a chenhedloedd y Deyrnas Unedig?

6. Y camau nesaf a sut i ymateb

6.1 Y camau nesaf

Bydd crynodeb o'r ymatebion ac ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu cyhoeddi maes o law ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

Bydd ymateb y llywodraeth yn ystyried yr holl ymatebion o fewn y rhychwant a gyflwynir i'r ymgynghoriad hwn, a chaiff ei seilio ar ystyriaeth ofalus o'r pwyntiau a wneir yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, nid nifer yr ymatebion sy'n dod i law.

Nid oes dim byd yn yr ymgynghoriad hwn wedi'i fwriadu i ragfarnu canlyniadau adolygiad strategol ehangach y Llywodraeth o ddarledu gwasanaeth cyhoeddus, na chyfyngu ar roi'r canlyniadau hynny ar waith. Bydd yr adolygiad hwnnw'n ystyried, ymhlith pethau eraill, argymhellion adolygiad Darlledu Gwasanaethau Cyhoeddus Ofcom (Small Screen: Big Debate).

Gan ddibynnu ar ganlyniadau'r adolygiad strategol, mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno Papur Gwyn yn ddiweddarach eleni a fydd yn ystyried dyfodol tirwedd ddarledu'r wlad gyda'r nod yn y pen draw o sicrhau ei bod yn gwasanaethu gwrandawyr a gwylwyr ar bob llwyfan a hynny ledled y Deyrnas Unedig.

Mae rhagor o wybodaeth am egwyddorion yr ymgynghoriad ar gael [yma](#). Byddem yn croesawu sylwadau ar bob agwedd ar y papur ymgynghori.

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

6.2 Sut i ymateb

Rydym yn croesawu sylwadau gan yr holl randdeiliaid a allai fod â buddiant yn hyn o beth.
Bydd yr ymgynghoriad yn cau am 23.45 ar 14 Medi 2021.

Cliciwch ar y ddolen i'r arolwg ar dudalen gwe GOV.UK. Os na allwch gael mynediad i'r ddolen, anfonwch eich ymateb drwy'r e-bost at Channel4consultation@dcms.gov.uk neu postiwch eich ymateb at:

Consultation on a potential change of ownership of Channel 4 Television Corporation
TV & Broadcasting Team
DCMS
4th Floor, 100 Parliament Street
London
SW1A 2BQ

Os oes arnoch angen copi mewn fformat arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni yn: Channel4consultation@dcms.gov.uk

Fel arall, gallwch ofyn am ffurflen ymateb drwy anfon neges e-bost at Channel4consultation@dcms.gov.uk

7. Datgelu ymatebion a diogelu data

Hysbysiad Preifatrwydd yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon

Pwy sy'n casglu fy nata i?

Mae'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yn helpu i sbarduno twf, cyfoethogi bywydau a hybu Prydain dros y môr.

Rydym yn diogelu ac yn hybu'n treftadaeth ddiwylliannol a chelfyddydol ac yn helpu busnesau a chymunedau i dyfu drwy fuddsoddi mewn arloesi ac amlygu Prydain fel lle gwyd i ymweld ag ef. Rydym yn helpu i roi mantais unigryw i'r Deyrnas Unedig ar y llwyfan byd-eang, gan ymdrechu i sicrhau llwyddiant economaidd.

Diben yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn

Darperir yr hysbysiad hwn yng nghyd-destun y newidiadau sy'n ofynnol o dan Erthygl 13 a 14 o Reoliad Cyffredinol y Deyrnas Unedig ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA). Mae'r hysbysiad hwn yn nodi sut y byddwn yn defnyddio'ch data personol fel rhan o'n rhwymedigaethau cyfreithiol o ran Diogelu Data.

Mae siarter gwybodaeth bersonol y DCMS yn esbonio sut rydym yn delio â'ch gwybodaeth. Mae hefyd yn esbonio sut y gallwch ofyn am gael gweld eich gwybodaeth, ei newid neu ei thynnu o'n cofnodion.

Beth yw data personol?

Data personol yw unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson byw naturiol a adnabuwyd neu sy'n adnabyddadwy, ac sydd fel arall yn cael ei alw'n 'destun data'. Testun data yw rhywun y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, drwy wybodaeth fel enw, rhif adnabod, data lleoliad, dynodwr ar-lein, neu ddata sy'n ymwneud â'u hunaniaeth gorfforol, ffisiolegol, enetig, feddyliol, economaidd, ddiwylliannol neu gymdeithasol. Mae'r mathau hyn o wybodaeth adnabod yn cael eu hadnabod fel 'data personol'. Mae'r deddfau diogelu data yn gymwys i brosesu data personol, gan gynnwys ei gasglu, ei ddefnyddio a'i storio.

Pa ddata personol rydyn ni'n ei gasglu?

Byddwn yn prosesu'r enwau a'r cyfeiriadau e-bost a ddarperir gan ymatebwyr sy'n ymateb i'r ymgynghoriad drwy e-bost. Byddwn hefyd yn prosesu'r wybodaeth y mae'r holl ymatebwyr yn ei darparu mewn perthynas â'ch oedran, eich tarddiad ethnig a'ch rhanbarth preswyl, yn ogystal â manylion am unrhyw sefydliad rydych yn ymateb ar ei ran. Byddwn hefyd yn prosesu'ch barn ar y newidiadau arfaethedig a geir yn yr ymgynghoriad, a allai, wrth gwrs, gynnwys data masnachol sensitif. Pan ddaw'r ymgynghoriad i ben, byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r pwyntiau allweddol a godwyd ar wefan yr Adran.

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

Gallai hyn gynnwys rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd, ond nid enw personol, cyfeiriad na manylion cysylltu eraill unrhyw unigolyn. Bydd yr holl ymatebion a data personol yn cael eu prosesu yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Os hoffech i rywfaint neu'r cyfan o'r wybodaeth a roddwch gael ei thrin yn gyfrinachol neu'n fasnachol sensitif, byddai'n ddefnyddiol pe gallech nodi'r wybodaeth berthnasol yn glir ac egluro pam rydych chi o'r farn ei bod yn gyfrinachol neu'n fasnachol sensitif. Sylwer y gall fod yn ofynnol yn ôl y gyfraith i'r DCMS gyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth: yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Os cawn unrhyw gais am ddatgelu'r wybodaeth hon, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch esboniad, ond allwn ni ddim rhoi sicrwydd llwyr ichi na fydd datgeliad yn cael ei wneud beth bynnag. Ni fyddwn yn ystyried ymwadiad awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG fel cais perthnasol at y dibenion hyn.

Pan fyddwch wedi cyflwyno'ch ymateb i'r ymgynghoriad, ni fyddwch yn gallu tynnu'ch atebion yn ôl o'r cam dadansoddi. Ond, o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 (a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data), mae gennych hawliau penodol i gyrchu'ch data personol a'i gywiro neu ei ddileu (mewn rhai amgylchiadau), a gallwch dynnu'ch caniatâd inni brosesu'ch data personol yn ôl unrhyw bryd.

Sut byddwn ni'n defnyddio'ch data?

Rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol at ystod eang o ddibenion, i'n galluogi i gyflawni'n swyddogaethau fel adran o'r llywodraeth. Mae hyn yn cynnwys:

Mae'ch data personol yn cael ei gasglu fel rhan hanfodol o'r broses ymgynghori, gan gynnwys at ddibenion ystadegol.

Beth yw'r sail gyfreithiol dros brosesu fy nata i?

I brosesu'r data personol hwn, ein rheswm cyfreithiol dros gasglu neu brosesu'r data hwn yw: Erthygl 6(1)e sef bod hynny'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg gyhoeddus (cyflawni swyddogaeth gyhoeddus neu arfer pwerau a nodir yn y gyfraith, neu gyflawni tasg benodol er budd y cyhoedd a nodir yn y gyfraith). Bydd y sail gyfreithlon rydym yn dibynnu arni i brosesu'ch data personol yn pennu pa rai o'r hawliau a ganlyn sydd ar gael ichi. Bydd llawer o'r gwaith prosesu a wnawn yn y DCMS yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'n rhwymedigaethau cyfreithiol neu er mwyn cyflawni tasg gyhoeddus. Os ydym yn dal data personol amdanoch mewn gwahanol rannau o'r DCMS at ddibenion gwahanol, yna efallai na fydd y sail gyfreithiol rydym yn dibynnu arni ym mhob achos yr un fath.

Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn darparu'r data hwn?

Nid yw'n ofynnol ichi ddarparu data personol.

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

Gyda phwy y bydd eich data'n cael ei rannu?

Ni fydd unrhyw ddata personol yn cael ei rannu.

Byddwn yn rhoi gwybod ichi os ydym am rannu'ch data personol gyda sefydliadau eraill – ac a allwch chi ddweud na ai peidio. Gallwch ofyn inni am fanylion y cytundebau sydd gennym gyda sefydliadau eraill ynglŷn â rhannu'ch gwybodaeth.

Am ba hyd y bydd fy nata'n cael ei gadw?

Dim ond am ddwy flynedd y byddwn yn cadw'ch data personol, yn unol â'r dibenion a nodir yn y ddogfen hon.

A fydd fy nata'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gwneud penderfyniadau awtomataidd neu broffilio?

Ni fyddwn yn defnyddio'ch data ar gyfer unrhyw benderfyniadau awtomataidd.

Beth yw'ch hawliau diogelu data?

Mae gennych hawliau dros eich data personol o dan Reoliad Cyffredinol y Deyrnas Unedig ar Ddiogelu Data (GDPR y Deyrnas Unedig) a Deddf Diogelu Data 2018. Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yw'r awdurdod goruchwyllo ar gyfer deddfwriaeth diogelu data, ac mae ganddi esboniad llawn o'r hawliau hyn ar ei gwefan. Bydd y DCMS yn sicrhau ein bod yn cynnal eich hawliau wrth brosesu'ch data personol.

Sut bydd Qualtrics yn storio fy nata i?

Qualtrics yw'r llwyfan arolygon ar-lein a ddefnyddir i gynnal yr arolwg hwn. Mae eu polisi preifatrwydd nhw i'w weld yma: <https://www.qualtrics.com/privacy-statement/>

Sut mae cwyno?

Consultation on a potential change of ownership of Channel 4 Television Corporation
TV & Broadcasting Team
DCMS
100 Parliament Street
London
SW1A 2BQ
Ebst: Channel4consultation@dcms.gov.uk

Dyma fanylion cysylltu Swyddog Diogelu Data'r rheolwr data (DPO):
Data Protection Officer
DCMS
100 Parliament Street
London
SW1A 2BQ
Ebst: DCMSdataprotection@dcms.gov.uk

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

Os nad ydych yn fodlon ar y ffordd rydym wedi ymdrin â'ch data personol ac os hoffech wneud cwyn, ysgrifennwch at DPO yr adran neu'r Rheolwr Diogelu Data yn yr asiantaeth berthnasol. Gallwch gysylltu â DPO yr adran drwy ddefnyddio'r manylion uchod.

Sut i gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Os ydych yn credu bod eich data personol wedi'i gamddefnyddio neu wedi'i gam-drafod, gallwch wneud cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n rheoleiddiwr annibynnol. Gallwch hefyd gysylltu â nhw i geisio cyngor annibynnol am ddiogelu data, preifatrwydd a rhannu data.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire

SK9 5AF

Gwefan: www.ico.org.uk

Ffôn: 0303 123 1113

Ebst: casework@ico.org.uk

Nid yw unrhyw gŵyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth yn rhagfarnu'ch hawl i geisio iawn drwy'r llysoedd.

Newidiadau i'n hysbysiad preifatrwydd

Gallwn wneud newidiadau i'r polisi preifatrwydd hwn. Os felly, bydd dyddiad y 'diweddariad diwethaf' ar waelod y tudalen hwn yn newid hefyd. Bydd unrhyw newidiadau i'r polisi preifatrwydd hwn yn gymwys i chi a'ch data ar unwaith. Os yw'r newidiadau hyn yn effeithio ar sut y caiff eich data personol ei brosesu, bydd y DCMS yn cymryd camau rhesymol i roi gwybod i chi.

Cafwyd y diweddariad diwethaf i'r hysbysiad hwn ar 30/06/2021

Arolwg

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth Corfforaeth Deledu Channel 4

'Nesaf'

'Yn ôl'

Hysbysiad Preifatrwydd

Pwy sy'n casglu fy nata i?

Mae'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yn helpu i sbarduno twf, cyfoethogi bywydau a hybu Prydain dros y môr.

Rydym yn diogelu ac yn hybu'n treftadaeth ddiwylliannol a chelfyddydol ac yn helpu busnesau a chymunedau i dyfu drwy fuddsoddi mewn arloesi ac amlygu Prydain fel lle gwych i ymweld ag ef. Rydym yn helpu i roi mantais unigryw i'r Deyrnas Unedig ar y llwyfan byd-eang, gan ymdrechu i sicrhau llwyddiant economaidd.

Diben yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn

Darperir yr hysbysiad hwn yng nghyd-destun y newidiadau sy'n ofynnol o dan Erthygl 13 a 14 o Reoliad Cyffredinol y Deyrnas Unedig ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA). Mae'r hysbysiad hwn yn nodi sut y byddwn yn defnyddio'ch data personol fel rhan o'n rhwymedigaethau cyfreithiol o ran Diogelu Data.

Mae siarter gwybodaeth bersonol y DCMS yn esbonio sut rydym yn delio â'ch gwybodaeth. Mae hefyd yn esbonio sut y gallwch ofyn am gael gweld eich gwybodaeth, ei newid neu ei thynnu o'n cofnodion.

Beth yw data personol?

Data personol yw unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson byw naturiol a adnabuwyd neu sy'n adnabyddadwy, ac sydd fel arall yn cael ei alw'n 'destun data'. Testun data yw rhywun y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, drwy wybodaeth fel enw, rhif adnabod, data lleoliad, dynodwr ar-lein, neu ddata sy'n ymwneud â'u hunaniaeth gorfforol, ffisiolegol, enetig, feddyliol, economaidd, ddiwylliannol neu gymdeithasol. Mae'r mathau hyn o wybodaeth adnabod yn cael eu hadnabod fel 'data personol'. Mae'r deddfau

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

diogelu data yn gymwys i brosesu data personol, gan gynnwys ei gasglu, ei ddefnyddio a'i storio.

Pa ddata personol rydyn ni'n ei gasglu?

Byddwn yn prosesu'r enwau a'r cyfeiriadau e-bost a ddarperir gan ymatebwyr sy'n ymateb i'r ymgynghoriad drwy e-bost. Byddwn hefyd yn prosesu'r wybodaeth y mae'r holl ymatebwyr yn ei darparu mewn perthynas â'ch oedran, eich tarddiad ethnig a'ch rhanbarth preswyl, yn ogystal â manylion am unrhyw sefydliad rydych yn ymateb ar ei ran. Byddwn hefyd yn prosesu'ch barn ar y newidiadau arfaethedig a geir yn yr ymgynghoriad, a allai, wrth gwrs, gynnwys data masnachol sensitif. Pan ddaw'r ymgynghoriad i ben, byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r pwyntiau allweddol a godwyd ar wefan yr Adran.

Gallai hyn gynnwys rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd, ond nid enw personol, cyfeiriad na manylion cysylltu eraill unrhyw unigolyn. Bydd yr holl ymatebion a data personol yn cael eu prosesu yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Os hoffech i rywfaint neu'r cyfan o'r wybodaeth a roddwch gael ei thrin yn gyfrinachol neu'n fasnachol sensitif, byddai'n ddefnyddiol pe gallech nodi'r wybodaeth berthnasol yn glir ac egluro pam rydych chi o'r farn ei bod yn gyfrinachol neu'n fasnachol sensitif. Sylwer y gall fod yn ofynnol yn ôl y gyfraith i'r DCMS gyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth: yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Os cawn unrhyw gais am ddatgelu'r wybodaeth hon, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch esboniad, ond allwn ni ddim rhoi sicrwydd llwyr ichi na fydd datgeliad yn cael ei wneud beth bynnag. Ni fyddwn yn ystyried ymwadiad awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG fel cais perthnasol at y dibenion hyn.

Pan fyddwch wedi cyflwyno'ch ymateb i'r ymgynghoriad, ni fyddwch yn gallu tynnu'ch atebion yn ôl o'r cam dadansoddi. Ond, o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 (a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data), mae gennych hawliau penodol i gyrchu'ch data personol a'i gywiro neu ei ddileu (mewn rhai amgylchiadau), a gallwch dynnu'ch caniatâd inni brosesu'ch data personol yn ôl unrhyw bryd.

Sut byddwn ni'n defnyddio'ch data?

Rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol at ystod eang o ddibenion, i'n galluogi i gyflawni'n swyddogaethau fel adran o'r llywodraeth. Mae hyn yn cynnwys:

Mae'ch data personol yn cael ei gasglu fel rhan hanfodol o'r broses ymgynghori, gan gynnwys at ddibenion ystadegol.

Beth yw'r sail gyfreithiol dros brosesu fy nata i?

I brosesu'r data personol hwn, ein rheswm cyfreithiol dros gasglu neu brosesu'r data hwn yw: Erthygl 6(1)e sef bod hynny'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg gyhoeddus (cyflawni swyddogaeth gyhoeddus neu arfer pwerau a nodir yn y gyfraith, neu gyflawni tasg benodol er budd y cyhoedd a nodir yn y gyfraith). Bydd y sail gyfreithlon rydym yn dibynnu arni i brosesu'ch data personol yn pennu pa rai o'r hawliau a ganlyn sydd ar gael ichi. Bydd llawer o'r gwaith prosesu a wnawn yn y DCMS yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'n rhwymedigaethau cyfreithiol neu er mwyn cyflawni tasg gyhoeddus. Os ydym yn dal data personol amdanoch mewn gwahanol rannau o'r DCMS at ddibenion gwahanol, yna efallai na fydd y sail gyfreithiol rydym yn dibynnu arni ym mhob achos yr un fath.

Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn darparu'r data hwn?

Nid yw'n ofynnol ichi ddarparu data personol.

Gyda phwy y bydd eich data'n cael ei rannu?

Ni fydd unrhyw ddata personol yn cael ei rannu. Byddwn yn rhoi gwybod ichi os ydym am rannu'ch data personol gyda sefydliadau eraill – ac a allwch chi ddweud na ai peidio. Gallwch ofyn inni am fanylion y cytundebau sydd gennym gyda sefydliadau eraill ynglŷn â rhannu'ch gwybodaeth.

Am ba hyd y bydd fy nata'n cael ei gadw?

Dim ond am ddwy flynedd y byddwn yn cadw'ch data personol, yn unol â'r dibenion a nodir yn y ddogfen hon.

A fydd fy nata'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gwneud penderfyniadau awtomataidd neu broffilio?

Ni fyddwn yn defnyddio'ch data ar gyfer unrhyw benderfyniadau awtomataidd.

Beth yw'ch hawliau diogelu data?

Mae gennych hawliau dros eich data personol o dan Reoliad Cyffredinol y Deyrnas Unedig ar Ddiogelu Data (GDPR y Deyrnas Unedig) a Deddf Diogelu Data 2018. Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yw'r awdurdod goruchwyllo ar gyfer deddfwriaeth diogelu data, ac mae ganddi esboniad llawn o'r hawliau hyn ar ei gwefan. Bydd y DCMS yn sicrhau ein bod yn cynnal eich hawliau wrth brosesu'ch data personol.

Sut bydd Qualtrics yn storio fy nata i?

Qualtrics yw'r llwyfan arolygon ar-lein a ddefnyddir i gynnal yr arolwg hwn. Mae eu polisi preifatrwydd nhw i'w weld yma:
<https://www.qualtrics.com/privacy-statement/>

Sut mae cwyno?

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

Consultation on a potential change of ownership of Channel 4 Television Corporation

TV & Broadcasting Team

DCMS

100 Parliament Street

London

SW1A 2BQ

Ebost: Channel4consultation@dcms.gov.uk

Dyma fanylion cysylltu Swyddog Diogelu Data'r rheolwr data (DPO):

Data Protection Officer

DCMS

100 Parliament Street

London

SW1A 2BQ

Ebost: DCMSdataprotection@dcms.gov.uk

Os nad ydych yn fodlon ar y ffordd rydym wedi ymdrin â'ch data personol ac os hoffech wneud cwyn, ysgrifennwch at DPO yr adran neu'r Rheolwr Diogelu Data yn yr asiantaeth berthnasol. Gallwch gysylltu â DPO yr adran drwy ddefnyddio'r manylion uchod.

Sut i gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Os ydych yn credu bod eich data personol wedi'i gamddefnyddio neu wedi'i gamdrafod, gallwch wneud cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n rheoleiddiwr annibynnol. Gallwch hefyd gysylltu â nhw i geisio cyngor annibynnol am ddiogelu data, preifatrwydd a rhannu data.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

SK9 5AF

Gwefan: www.ico.org.uk

Ffôn: 0303 123 1113

Ebost: casework@ico.org.uk

Nid yw unrhyw gŵyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth yn rhagfarnu'ch hawl i geisio iawn drwy'r llysoedd.

Newidiadau i'n hysbysiad preifatrwydd

Gallwn wneud newidiadau i'r polisi preifatrwydd hwn. Os felly, bydd dyddiad y 'diweddariad diwethaf' ar waelod y tudalen hwn yn newid hefyd. Bydd unrhyw newidiadau i'r polisi preifatrwydd hwn yn gymwys i chi a'ch data ar unwaith. Os yw'r newidiadau hyn yn effeithio ar sut y caiff eich data personol ei brosesu, bydd y DCMS yn cymryd camau rhesymol i roi gwybod i chi.

Cafwyd y diweddariad diwethaf i'r hysbysiad hwn ar 30/06/2021

Rwyf wedi darllen ac wedi deall y datganiad ar ddatgelu ymatebion

Ydw

Nac ydw

Cyfarwyddiadau ar llenwi'r arolwg

Gallwch doglo rhwng cwestiynau drwy ddefnyddio'r botymau 'YN ÔL' a 'NESAF'.

Cewch llenwi'r arolwg yn rhannol a dychwelyd ato'n ddiweddarach, ar yr amod bod yr ymgynghoriad yn dal yn agored. Dim ond ymatebion sydd wedi'u cyflwyno cyn i'r ymgynghoriad gau a fydd yn cael eu derbyn. Ar ôl ichi gyflwyno'ch ymateb fe ddylech chi weld y neges a ganlyn:

Diolch ichi am eich amser yn llenwi'r arolwg.

Mae'ch ymateb wedi'i gofnodi.

Bydd unrhyw ymatebion sydd heb eu cyflwyno yn cael eu gwaredu ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori.

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

Amseru

Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhychwantu'r Deyrnas Unedig. Rydym yn croesawu sylwadau gan yr holl randdeiliaid a all fod â buddiant yn hyn o beth. Bydd yr ymgynghoriad yn cau ar 14 Medi 2021 am 23.45.

Bydd crynodeb o'r ymatebion ac ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu cyhoeddi maes o law ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

Bydd ymateb y Llywodraeth yn ystyried yr holl ymatebion o fewn y rhychwant a gyflwynir i'r ymgynghoriad hwn, a chaiff ei seilio ar ystyriaeth ofalus o'r pwyntiau a wneir yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, nid nifer yr ymatebion sy'n dod i law.

Ydych chi'n ymateb fel unigolyn ynteu a yw'r ymateb hwn yn mynegi barn sefydliad?

Unigolyn
Sefydliad

Os 'unigolyn' yw'r ateb:

Beth yw'ch oedran chi?

0-15
16-24
25-34
35-44
45-54
55-64
65-74
75-84
85+

Ym mha ran o'r Deyrnas Unedig rydych chi'n byw?

Gogledd-ddwyrain Lloegr
Gogledd-orllewin Lloegr
Swydd Efrog a Humber
Dwyrain Canolbarth Lloegr
Gorllewin Canolbarth Lloegr
Dwyrain Lloegr
Llundain
De-ddwyrain Lloegr
De-orllewin Lloegr

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

Cymru
Yr Alban
Gogledd Iwerddon
Y tu allan i'r Deyrnas Unedig

Beth yw'ch grŵp ethnig?
(Dewiswch un opsiwn sy'n rhoi'r disgrifiad gorau o'ch grŵp neu'ch cefndir ethnig chi)

Gwyn
Seisnig / Cymreig / Albanaidd / Gogledd Iwerddon / Prydeinig
Gwyddelig
Sipsi neu deithiwr
Unrhyw gefndir Gwyn arall, rhowch ddisgrifiad

Grwpiau ethnig cymysg/lluosog
Gwyn a Du Caribiaidd
Gwyn a Du Affricanaidd
Gwyn ac Asiaidd
Unrhyw gefndir ethnig Cymysg / Lluosog arall, rhowch ddisgrifiad

Asiaidd / Asiaidd Prydeinig
Indiaidd
Pacistanaidd
Bangladeshaid
Tsieineaidd
Unrhyw gefndir Asiaidd arall, rhowch ddisgrifiad

Du / Affricanaidd / Caribiaidd / Du Prydeinig
Affricanaidd
Caribiaidd
Unrhyw gefndir Du / Affricanaidd / Caribiaidd arall, rhowch ddisgrifiad

Grŵp Ethnig Arall
Arabaid
Unrhyw grŵp ethnig arall, rhowch ddisgrifiad

Os 'sefydliad' yw'r ateb:

Beth yw enw'r sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli?

Beth yw'ch rôl chi yn y sefydliad?

Pa un o'r canlynol yw'r disgrifiad gorau o'ch sefydliad chi?
Darlledwr teledu / Llwyfan fideo
Cynhyrhydd Annibynnol
Rhywbeth arall yn y gadwyn gyflenwi teledu, rhowch y manylion

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

Sector Creadigol Ehangach, rhowch y manylion

Arall, rhowch y manylion

Newidiadau yn neinameg y farchnad ddarlledu

Mae nifer cynyddol o heriau'n wynebu'r sector teledu llinellol, gan gynnwys newid yn arferion y defnyddwyr (gyda phob cynulleidfa ac yn enwedig cynulleidfaedd iau yn fwyfwy tebygol o ddefnyddio cynnwys ar lwyfannau nad ydynt yn llinellol, megis gwasanaethau Fideo ar Alw (VoD), a hynny ar 'ail sgriniau' anhraddodiadol), gostyngiad yn y niferoedd sy'n gwyllo teledu llinellol sydd â goblygiadau i bob PSB, a gallu cwmnïau byd-eang, gan gynnwys Netflix, Amazon a Disney, i ddenu adnoddau ariannol arwyddocaol. Disgwylir i'r heriau hyn ddod yn fwy amlwg dros amser. O dan berchnogaeth gyhoeddus, mae diffyg mynediad Channel 4 at gyfalaf a'i dibyniaeth bresennol ar hysbysebion a gweithgareddau noddi sy'n cael eu sbarduno gan ddigwyddiadau yn ei hagor i amrywiadau yn y farchnad a'r gostyngiad mewn gwariant hysbysebu ar deledu llinellol o'i gymharu â digidol. Mae cyllidebau cynhyrchu cynyddol ar draws llwyfannau Fideo ar Alw (VoD) yn ei gwneud yn fwyfwy anodd i chwaraewyr domestig sydd heb fynediad at gyfalaf arwyddocaol gefnogi buddsoddiad strategol i gystadlu. Mae'r llywodraeth o'r farn bod y dirwedd ddarlledu sy'n esblygu a'r heriau perthynol yn rhwystrau i gynaliadwyedd Channel 4 yn y dyfodol o dan berchnogaeth gyhoeddus.

Ydych chi'n cytuno bod yna heriau yn y farchnad darlledu teledu bresennol sy'n creu rhwystrau sy'n atal Channel 4 gynaliadwy mewn perchnogaeth gyhoeddus?

Ydw

Nac ydw

Ansicr

Rhowch dystiolaeth ategol

Heriau i Channel 4 o dan berchnogaeth gyhoeddus

Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i lwyddiant a chynaliadwyedd y system PSB, y mae Channel 4 yn rhan annatod ohoni, ac mae'n cydnabod ei bod yn darparu gwerth economaidd, diwylliannol a democrataidd arwyddocaol i wylwyr ledled y Deyrnas Unedig. Er bod Channel 4 eisoes yn gweithredu i addasu i gefndir heriol y sector (gan gynnwys cynyddu'r gwyllo ymysg pobl 16-34 oed, ymgysylltu â chynulleidfaedd iau drwy'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy ei tharged yn strategaeth Future4 o sicrhau 40% o gyfanswm ei refeniw o refeniw hysbysebu digidol a refeniw heblaw hysbysebion erbyn 2025), mae'r llywodraeth o'r farn bod amryw o ffactorau, gan gynnwys statws Channel 4 fel cyhoeddwr-ddarlledwr a'i mynediad cyfyngedig at gyfalaf yn rhinwedd ei pherchnogaeth gyhoeddus, yn cyfyngu ar ei gallu i ymateb mor effeithiol ag y gallai i'r newid yn neinameg y farchnad, ac sydd felly'n creu mwy o risg i'w chynaliadwyedd hirdymor. Barn y llywodraeth yw y gallai perchnogaeth trydydd parti a'r manteision a ddaw yn ei sgil ganiatáu i Channel 4 adeiladu ar

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

ei llwyddiant a chystadlu'n fwy effeithiol â chwaraewyr newydd, gan ganiatáu iddi fod yn fwy ystwyth nag sy'n bosibl o dan berchnogaeth gyhoeddus.

A fyddai Channel 4, gyda thrwydded a chylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus parhaus, mewn gwell sefyllfa i gyflawni nodau'r llywodraeth ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn gynaliadwy pe bai y tu allan i berchnogaeth gyhoeddus?

Byddai
Na fyddai
Ansicr

Rhowch dystiolaeth ategol

Cefnogaeth Channel 4 ar gyfer codi'r gwastad

Mae'r llywodraeth yn cydnabod ymrwymiad Channel 4 at godi'r gwastad a'i chefnogaeth i economïau cenedlaethol a rhanbarthol. Cyfrannodd Channel 4 £992 miliwn i economi'r Deyrnas Unedig yn 2019, gan gynnwys £274 miliwn i'r economi rhanbarthol, a chefnogi dros 3000 o swyddi hefyd yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Mae hi wedi gwneud yn well yn gyson na'i chwota ar gyfer gwariant a nifer yr oriau o raglenni a gomisiynwyd gan gwmnïau cynhyrchu sydd wedi'u lleoli yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Yn 2019, lansiodd Channel 4 ei phencadlys cenedlaethol newydd yn Leeds yn swyddogol, ac mae ganddi bresenoldeb ym Mryste, Glasgow a Manceinion. Gan hynny, mae'r llywodraeth o'r farn y gallai ymrwymiad parhaus ac o'r newydd i godi'r gwastad gael ei gysylltu'n briodol ag unrhyw newid mewn perchnogaeth wrth i'r llywodraeth geisio gwella safonau byw, buddsoddiadau, cyfleoedd a chanlyniadau ledled y wlad. Gallai hyn gynnwys ymrwymïadau bod pencadlys cenedlaethol newydd Channel 4 yn Leeds yn cael ei chadw fel un gofyniad fel rhan o unrhyw newid mewn perchnogaeth. Yn yr un modd, os yw'n ddymunol, mae cyfle i barhau (neu hyd yn oed wella) y gofyn bod rhaid i wariant Channel 4 gael ei wneud ledled y Deyrnas Unedig gyfan a bod rhaid darparu cynnwys sy'n cynrychioli cymunedau ledled y Deyrnas Unedig.

A ddylai Channel 4 barhau â'i chyfraniad at godi'r gwastad yn rhanbarthau a chenhedloedd y Deyrnas Unedig drwy gadw presenoldeb y tu allan i Lundain a chylch gwaith cynhyrchu rhanbarthol cryfach?

Dylai
Na ddylai
Ansicr

Rhowch dystiolaeth ategol

Cylch gwaith a rhwymedigaethau Channel 4

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

Ar hyn o bryd ac fel darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill a ariennir yn fasnachol, rhaid i Channel 4 ddarlledu cyfran ac ystod benodol o gynnwys 'gwreiddiol' – gyda Channel 4 yn canolbwyntio ar gynhyrchu cynnwys arloesol sy'n cymryd risgiau sy'n apelio at chwaeth a diddordebau cymdeithas sy'n ddiwylliannol amrywiol. Mae Channel 4 yn dod o dan ofynion ansoddol ar draws ei sianelau a gofynion meintiol, neu gwotâu, ar gyfer ei phrif sianel ddarlledu. Mae'r llywodraeth yn gweld y gwerth a geir i'r gymdeithas drwy'r rhwymedigaethau sydd ar Channel 4 i ddarlledu cynnwys sy'n apelio at gynulleidfa oedd ifanc ac amrywiol, ac i arddel dull sy'n fwy seiliedig ar risg wrth ymdrin â chynnwys o'i chymharu â PSBs eraill a ariennir yn fasnachol. Gan hynny, mae'r Llywodraeth yn bwriadu cadw rhwymedigaethau o'r fath, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â darparu llawer o newyddion a materion cyfoes, er y bydd yn bwysig sicrhau nad yw ei chylch gwaith yn llyffetheirio cynaliadwyedd Channel 4 yn y dyfodol na'i gallu i ddarlledu cynnwys perthnasol ac o safon.

A ddylai'r llywodraeth ddiwygio cylch gwaith a rhwymedigaethau Channel 4 i sicrhau ei bod yn dal yn berthnasol mewn marchnad ddarlledu sy'n esblygu? Os dylai, pa newidiadau y dylid eu gwneud (a allai gynnwys rhyddidau newydd neu newidiadau yn ei rhwymedigaethau)?

Dylai

Na ddylai

Ansicr

Rhowch dystiolaeth ategol

Effaith Channel 4 ar yr economi creadigol

Wrth ystyried rôl Channel 4 yn y dyfodol, un o amcanion craidd y llywodraeth yw nid yn unig diogelu cyfraniad sylweddol Channel 4 i economi creadigol y Deyrnas Unedig, ond ei gwella. Mae Channel 4 ei hun yn gwneud cyfraniadau economaidd a chymdeithasol arwyddocaol i'r Deyrnas Unedig, gan gynhyrchu cyfanswm cyfraniad GVA o £992 miliwn yn 2019 a chefnogi rhyw 10,600 o swyddi. Yn wahanol i ddarlledwyr eraill, nid yw Channel 4 yn codi refeniw arwyddocaol o gynrychiadau, yn bennaf o ganlyniad i'r gwaharddiad, drwy ei statws cyhoeddwr-ddarlledwr, rhag bod yn rhan o'r gwaith o wneud rhaglenni i'w darlledu fel rhan o wasanaeth Channel 4 heb ofyn cymeradwyaeth reoleiddio yn gyntaf – a refeniw cyfyngedig drwy werthu hawliau eilaidd. Mae'r model hwn wedi helpu i gefnogi sector cynhyrchu annibynnol y Deyrnas Unedig ond mae sector cynhyrchu annibynnol y Deyrnas Unedig yn ffynnu ar hyn o bryd ac yn llai a llai dibynnol ar incwm o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y Deyrnas Unedig. Er y gellid ffafrio cefnogaeth barhaus i sector cynhyrchu annibynnol y Deyrnas Unedig, ar y cyfan rydym yn asesu y gallai gwanhau neu ddileu'r cyfyngiad cyhoeddwr-ddarlledwr mewn diwygiadau posibl alluogi Channel 4 i sicrhau mwy o arallgyfeirio ariannol o gofio'r cyfyngiadau sy'n deillio o'r cyfyngiad ar hyn o bryd.

A ddylai'r llywodraeth ddileu'r cyfyngiad cyhoeddwr-ddarlledwr er mwyn cynyddu gallu Channel 4 i arallgyfeirio'i ffrydiau refeniw masnachol?

Dylai

Ymgynghoriad ar newid perchnogaeth posibl i Gorfforaeth Deledu Channel 4

Na ddylai
Ansicr

Rhowch dystiolaeth ategol

Effaith newid perchnogaeth ar gynulleidfaedd, y sector a'r tu hwnt

Yn y pen draw, mae'r Llywodraeth am i Channel 4 gadw ei lle wrth galon byd darlledu Prydain. Rydym am ei gweld yn ffynnu ac yn cyfrannu at ein cynlluniau ehangach i hybu'r diwydiannau creadigol; sbarduno twf economaidd, rhyddhau buddsoddiadau, creu swyddi ac adeiladu ar ein cystadleurwydd rhyngwladol. Bydd angen inni ystyried effeithiau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol unrhyw newid perchnogaeth posibl ar bob grŵp rhanddeiliaid a bydd eich ymateb chi'n rhan o'r dystiolaeth i fwydo'r broses o wneud penderfyniadau ar y pwnc hwn.

Gan gyfeirio at dystiolaeth ategol, beth fyddai'r costau a'r manteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol pe bai Channel 4 yn symud allan o berchnogaeth gyhoeddus ar y canlynol:

- a. Profiad cyffredinol y gynulleidfa?
- b. Corfforaeth Deledu Channel 4 ei hun?
- c. Buddsoddi yn y sector cynhyrchu annibynnol?
- d. Buddsoddi yn y sector ffilm annibynnol?
- e. Y farchnad hysbysebu ar y teledu?
- f. Buddsoddi yn y sector diwydiannau creadigol yn ehangach?
- g. Cystadleuaeth rhwng Channel 4 a sianeli nad ydyn nhw'n PSBs?
- h. Rhanbarthau a chenhedloedd y Deyrnas Unedig?

**Cliciwch ar 'nesaf' i gyflwyno'ch ymateb neu
'yn ôl' i olygu'ch ymatebion.**

Diolch ichi am eich amser yn llenwi'r arolwg.
Mae'ch ymateb wedi'i gofnodi.